Senedd Cymru
**Cynllun Pensiwn Aelodau**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:

## 1 Ebrill 2019 to 31 Mawrth 2020

Gorffennaf 2020




www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Cynllun Pensiwn Aelodau**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:

## 1 Ebrill 2019 to 31 Mawrth 2020

Gorffennaf 2020

# Cynnwys

**Cynllun Pensiwn yr Aelodau: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ......... 1**

**Ymddiriedolwyr a chynghorwyr ........................................................ 6**

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 i aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ........................................................ 8**

**Datblygiad ariannol y Cynllun ........................................................ 13**

**Adolygiad actiwaraidd ........................................................ 15**

**Adroddiad buddsoddi – ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 ........................................................ 27**

**Cefndir yr economi a'r farchnad – 12 mis tan 31 Mawrth 2020 ........... 32**

**Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr am y Datganiadau Ariannol ........................................................ 37**

**Datganiad Llywodraethu ........................................................ 39**

**Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru ........................................................ 44**

**Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 ............................ 47**

**Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon ........................................................ 49**

**Datganiad yr Archwilydd Annibynnol ........................................................ 62**

**Datganiad yr Actiwari yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2020 ........................................................ 64**

# Ymddiriedolwyr a chynghorwyr

Cadarnhaodd y Bwrdd Taliadau fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, yn unol â Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, y dylid sefydlu Bwrdd Pensiynau i ddisodli Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. O 6 Mai 2016 ymlaen, yn unol ag adran 5 o reolau newydd y Cynllun a ddaeth i rym o'r dyddiad hwnnw ymlaen, penodwyd Bwrdd Pensiynau newydd yn lle Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae cyfansoddiad y Bwrdd Pensiynau ar gyfer 2019-20 wedi cynnwys:

| Rôl | Enw | Dyddiad Penodi | Ymddiswyddo |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolwr Annibynnol (Cadeirydd) | Jill Youds | 6 Mai 2016 | |
| Ymddiriedolwr | Mike Hedges AC | 6 Mai 2016 | |
| Ymddiriedolwr | Nia Morgan | 4 Awst 2016 | |
| Ymddiriedolwr | Ieuan Wyn Jones | 12 Hydref 2017 | |
| Ymddiriedolwr | Robert Evans | 20 Rhagfyr 2018 | |

Gwasanaethodd Mike Hedges ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr blaenorol o 12 Hydref 2011 ymlaen.

Ar 6 Mai 2020, newidiwyd enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru, ac fe gyfeirir at y sefydliad yn gyffredin fel y Senedd. O ganlyniad, mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon yn adlewyrchu'r newid enw, gan gyfeirio at y sefydliad fel y 'Cynulliad' mewn cyd-destun hanesyddol (cyn 6 Mai) a'r 'Senedd' wedi hynny.

Newidiodd enw Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd i Gynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru.

## Gweinyddu'r Cynllun

Ysgrifenyddiaeth y Cynllun sy'n rheoli'r Cynllun o ddydd i ddydd fel rhan o Wasanaethau Ariannol Comisiwn y Senedd. Dylid anfon unrhyw ymholiadau am bensiynau neu gais am unrhyw wybodaeth ychwanegol at yr Ysgrifenyddiaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

**Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru**
**Gwasanaethau Ariannol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ar y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol, Gweinyddwyr y Cynllun oedd:

| | |
|---|---|
| **Donna Davies: Ysgrifennydd y Cynllun** | Rhif ffôn: 0300 200 6523 ac e-bost: donna.davies@senedd.cymru |
| **Liz Calder Ysgrifennydd Cynorthwyol** | Rhif ffôn: 0300 200 6528 ac e-bost: liz.calder@senedd.cymru |

Cynghorwyr y Cynllun a benodwyd gan yr Ymddiriedolwyr fel ar 31 Mawrth 2020

| | |
|---|---|
| **Actiwari** | Martin Clarke o Adran Actiwari'r Llywodraeth |
| **Archwilydd** | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| **Bancwyr** | Banc Barclays ccc |
| **Rheolwyr Buddsoddi** | Baillie Gifford<br>Invesco Perpetual<br>Legal & General Investment Management ("LGIM")<br>Partners Group<br>BNY Mellon Investment Management ('BNYM") |
| **Cynghorydd Cyfreithiol** | Eversheds Sutherland LLP |
| **Cyfrifwyr y Cynllun** | Ysgrifenyddiaeth y Cynllun, Comisiwn y Senedd |
| **Cynghorydd Buddsoddi** | Quantum Advisory |

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 i aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cefndir deddfwriaethol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynllun”)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad") yn darparu Cynllun buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 i’r Ddeddf honno yn rhoi dilyniant i’r Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae’r Cynllun yn darparu buddion i Aelodau’r Cynulliad ac i Ddeiliaid Swyddi. Mae pob Aelod Cynulliad yn aelod o’r Cynllun o’r dyddiad y mae’n ymuno â’r Cynulliad, oni bai ei fod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Cyflwynwyd Cynllun Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa (CARE) ar 6 Mai 2016. Mae aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael 'Diogelwch Trosiannol' ac yn parhau i gael eu buddion wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd arall tan 5 Mai 2021.

Y cyfraniad a wnaed gan y Cynulliad ar 31 Mawrth 2020 oedd 19.9 y cant o gyflogau cyfansymiol yr aelodau. Mae aelodau nad ydynt yn cael 'Diogelwch Trosiannol' yn talu cyfraniadau ar gyfradd o 10.5 y cant. Mae'r aelodau hynny sy'n cael 'Diogelwch Trosiannol' yn parhau i dalu cyfraniadau ar eu cyfradd bresennol o naill ai 6 y cant neu 10 y cant, yn dibynnu a ydynt yn cronni buddion ar sail un rhan o 50 neu ar sail un rhan o 40, yn y drefn honno.

Y prif nodweddion yw:

- Bob blwyddyn, bydd yr aelodau’n cronni pensiwn sy'n cyfateb i un rhan o 50 o'u cyflog am y flwyddyn honno.
- Caiff y pensiwn a gronnir bob blwyddyn ei ailbrisio yn unol â Gorchmynion y Trysorlys a wneir o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, a hynny'n unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar hyn o bryd.

- Mae buddion a gronnir yn y Cynllun Cyflog Terfynol yn cael eu diogelu'n llawn, a byddant yn parhau i fod yn gysylltiedig ag unrhyw gynnydd yn y dyfodol mewn cyflogau.
- Mae Deiliaid Swyddi yn ennill pensiwn CARE ychwanegol ar gyfer Deiliaid Swyddi, sef un rhan o 50 o'r cyflog y maent yn ei ennill bob blwyddyn fel Deiliaid Swyddi.
- Caiff yr Oedran Ymddeol Arferol ei gysylltu ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, pa un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar oedran ymddeol arferol, sef 65 mlwydd oed.
- Caiff pensiynau sy'n cael eu talu eu mynegrifo i'r newidiadau yn y Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu).
- Cyfandaliad marwolaeth mewn gwasanaeth cyfwerth â chyflog o ddwy flynedd ynghyd â darpariaeth ar gyfer mwy nag un enwebai.

## Trosglwyddiadau

Caiff gwerth yr holl symiau a drosglwyddwyd i Gynlluniau pensiwn eraill eu cyfrifo a'u gwirio gan Actiwari'r Cynllun yn unol â'r gofynion statudol. Ni wnaed unrhyw drosglwyddiadau allan o'r Gronfa yn ystod y flwyddyn.

## Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

Cadeirydd Annibynnol proffesiynol y Bwrdd yw Jill Youds. Cymeradwyodd y Bwrdd Taliadau ailbenodiad Jill yn Gadeirydd am dymor arall o bedair blynedd a ddaeth i rym ar 6 Mai 2020. Mae Jill hefyd yn cadeirio'r Bwrdd Pensiynau Barnwrol a Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynllun Comisiwn y Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae Jill yn Ymddiriedolwr ac yn Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol yn yr Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST) ac yn gyfarwyddwr anweithredol yn y Bartneriaeth Pensiynau Lleol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi dilyn hyfforddiant ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) mewn perthynas â buddsoddiadau cynllun pensiwn, gan ganolbwyntio'n benodol ar newid yn yr hinsawdd. Ystyriodd y Bwrdd sut y mae'r materion hyn yn dylanwadu ar adenillion buddsoddi cynaliadwy a sut y gallent effeithio ar gyllid y Cynllun a chyfraniadau cyflogeion a chyflogwyr. Cafodd y Bwrdd hyfforddiant hefyd ar yr agweddau cyfreithiol ar eu cyfrifoldebau a oedd yn cynnwys diweddariad ar eu dyletswyddau ymddiriedol mewn perthynas â buddsoddiadau'r Cynllun a disgwyliadau'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Bwrdd ddiweddariad gan

gynghorydd cyfreithiol y Cynllun ar gyfraith achosion pensiynau. Bydd yr holl Ymddiriedolwyr yn parhau i gael hyfforddiant i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl ac i fodloni gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau a Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.

Y Bwrdd Taliadau sy'n gyfrifol am reolau'r Cynllun ac am bennu lefel a ffurf buddion aelodau. Yn dilyn cyngor gan gynghorydd cyfreithiol y Cynllun ac ymgynghoriad ag aelodau'r Cynllun, newidiodd y Bwrdd reolau'r Cynllun i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r gofynion o ran gwahaniaethu ar sail oedran. Cytunodd y Bwrdd hefyd i gynnig rhagor o hyblygrwydd i aelodau sy'n dioddef o afiechyd difrifol, o ran y ffurf y gallant gymryd eu pensiwn.

Mae actiwari'r Cynllun wedi cadarnhau, oherwydd y nifer fach o achosion a ddisgwylir, na fydd fawr ddim effaith o ran ariannu'r Cynllun ac na fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar lefel y cyfraniadau y mae aelodau'n eu talu i'r Cynllun Pensiwn.

Mae'r Bwrdd Pensiynau wedi bod yn gweithio gyda'i Gynghorydd Buddsoddi (Quantum Advisory) i adolygu strategaeth fuddsoddi'r Cynllun, a gyflwynwyd yn 2017. Mae gan y Bwrdd fuddsoddiadau mewn amrywiaeth eang o gronfeydd cyfun fel a ganlyn:

- Baillie Gifford Diversified Growth
- BNY Mellon Sustainable Real Return Fund
- Legal & General Investment Management ("LGIM") Managed Property
- Partners Group Generations
- LGIM Ethical Global Equity Index
- LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilt

Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, adolygodd y Bwrdd Pensiynau fuddsoddiadau'r Cynllun yng ngoleuni ei bolisi ESG. Cytunodd i symud tua 15 y cant o asedau'r Cynllun, tua £5.4 miliwn, o gronfa Invesco Perpetual Global Targeted Returns i gronfa BNY Mellon Sustainable Return. Arweiniodd hynny at ostyngiad ym muddsoddiadau'r Cynllun yn y sector olew a nwy, o tua 30 y cant i tua 1.99 y cant.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi mabwysiadu polisi o leihau buddsoddiadau'r Cynllun yn y sector olew a nwy dros gyfnod o bum mlynedd fel nad yw'n buddsoddi yn y meysydd hynny o gwbl yn y pen draw. Gwneir hyn ar yr amod bod cyfryngau buddsoddi addas ar gael dros y cyfnod ar gyfer maint y Cynllun.

Ni ddisgwylir i'r newid effeithio'n sylweddol ar lefel yr adenillion disgwyliedig sy'n gysylltiedig â strategaeth fuddsoddi'r Cynllun nac effeithio ar allu'r Cynllun i dargedu'r lefel ofynnol o adenillion buddsoddi i gefnogi rhagdybiaethau'r prisiad actiwaraidd. Mae'r newid wedi'i seilio ar gred y Bwrdd bod cwmnïau cynaliadwy yn fwy tebygol o sicrhau adenillion buddsoddi hirdymor.

Bydd y Bwrdd yn parhau i weithio gyda'i gynghorwyr buddsoddi i gytuno ar y ffordd orau o gyflawni ei nod o leihau buddsoddiadau'r Cynllun mewn olew a nwy dros y pum mlynedd nesaf fel nad yw'n buddsoddi yn y meysydd hynny o gwbl yn y pen draw.

O ran y darpariaethau diogelu trosiannol a gynhwysir mewn cynlluniau pensiwn diwygiedig ar gyfer y farnwriaeth a diffoddwyr tân, a gyflwynwyd fel rhan o ddiwygiadau i bensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn 2015, penderfynodd y Llys Apêl ym mis Rhagfyr 2018 eu bod yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol ar sail oedran, ac felly'n anghyfreithlon. Bydd yn rhaid i'r llysoedd gymeradwyo'r manylion o ran sut y bydd y gwahaniaethu'n cael ei unioni. Nodwyd bwriad y Llywodraeth i unioni'r gwahaniaethu ar draws pob cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus mewn datganiad gweinidogol ysgrifenedig gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 15 Gorffennaf 2019.

Mae'r Llywodraeth a'r tribiwnlysoedd cyflogaeth yn parhau i drafod sut i unioni'r gwahaniaethu ac mae diffyg eglurder o hyd o ran amseriad a natur unrhyw newidiadau i gynlluniau.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i fonitro'r sefyllfa gan fod diogelu trosiannol hefyd yn nodwedd o'n cynllun a dyna pam rydym yn monitro'r sefyllfa'n agos. Byddwn yn cymryd cyngor priodol gan Actiwari a chynghorydd cyfreithiol y Cynllun wrth i ddull o unioni'r sefyllfa gael ei ddatblygu a'i gytuno.

## Rheoli'r Cynllun

Ceir rhestr o'r Ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ar dudalen 6.

## Cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr

Fel rheol, cynhelir cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr unwaith ym mhob sesiwn Cynulliad, ac weithiau mae cyfarfodydd ychwanegol at ddibenion penodol. Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr dair gwaith yn ystod y flwyddyn. Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr hefyd drwy alwad gynadledda ar 30 Mawrth 2020.

Caiff yr Ymddiriedolwyr weithredu yn ôl penderfyniad y mwyafrif sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr lle ceir cworwm. Mae angen tri i gael

cworwm mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr, ac mae hynny'n cynnwys y Cadeirydd Annibynnol.

## Datrys Anghydfodau Mewnol

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi gweithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol ar waith yn unol â gofynion Deddf Pensiynau 1995. Mae manylion am y weithdrefn ar gael gan Ysgrifenyddiaeth y Cynllun.

# Datblygiad ariannol y Cynllun

## Paratoi ac Archwilio'r Cyfrifon Blynyddol

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a'r canllawiau a nodir yn y Datganiad o Arfer a Argymhellir (Diwygiwyd 2018). Mae Ymddiriedolwyr y Cynllun wedi manteisio ar yr opsiwn i fabwysiadu'r diwygiadau i Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon ac adolygiad tair blynedd 2017 – Gwelliannau Cynyddrannol ac Eglurhad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir (diwygiwyd 2018), yn gynnar ar gyfer y datganiadau ariannol hyn.

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi gan swyddogion y Cynulliad, ar ran yr Ymddiriedolwyr, a'u harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cânt eu paratoi a'u harchwilio o dan Adrannau 41(1) a (6) o Ddeddf Pensiynau 1995 ac yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) OS 1996/1975.

Mae copïau o'r cyfrifon hyn ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth os gwneir cais amdanynt.

## Crynodeb o'r wybodaeth ariannol

Mae'r tabl isod yn dangos yr incwm a'r gwariant yn ystod y cyfnod ar gyfer 2019-20 a ffigurau cymharol ar gyfer 2018-19 a'r sefyllfa asedau net.

Yn ystod y cyfnod, trosglwyddwyd cyfanswm o £328,597 o fuddsoddiadau newydd i Reolwyr y Gronfa i'w buddsoddi yng nghronfa Baillie Gifford Diversified Growth a chronfa Invesco Perpetual Global Targeted Returns.

Cyfanswm gwerth y cronfeydd a fuddsoddwyd ar y farchnad ar 31 Mawrth 2020 oedd £35,177,019 (31 Mawrth 2019 £37,065,870).

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 £ |
|---|---|---|
| Incwm sy'n gysylltiedig ag aelodau | 1,462,907 | 1,448,351 |
| Taliadau sy'n gysylltiedig ag aelodau | 1,161,172 | 1,123,836 |
| Ychwanegiadau net o drafodion ag aelodau | 301,735 | 324,515 |
| Adenillion net ar fuddsoddiadau | (2,202,447) | 1,420,185 |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y gronfa | (1,900,712) | 1,744,700 |
| Asedau net ar ddechrau'r flwyddyn | 37,150,279 | 35,405,579 |
| Asedau net ar ddiwedd y flwyddyn | 35,249,567 | 37,150,279 |

# Adolygiad actiwaraidd

## Datganiad yr Actiwari yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2020

Caiff Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cymru ei eithrio o'r gofyniad a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon wedi'u harchwilio cyn pen saith mis ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifyddu. Fodd bynnag, bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ethos y ddeddfwriaeth, ac yn hynny o beth, mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn yr un modd â phe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.

## Asesiad Actiwaraidd

Nid yw'r Datganiadau Ariannol a geir ar dudalennau 47 i 48 yn ystyried y rhwymedigaethau i ddarparu buddion pensiwn sy'n dod yn ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn. Caiff y rhwymedigaethau hyn eu hystyried gan Actiwari'r Cynllun, sy'n gwneud prisiad actiwaraidd o rwymedigaethau o'r fath bob tair blynedd. Mae'r prisiad hwn yn ystyried sefyllfa ariannu'r Cynllun a lefel y cyfraniadau sy'n daladwy.

Cynhaliwyd asesiad actiwaraidd ffurfiol o'r Cynllun gyda dyddiad gweithredol, sef 1 Ebrill 2017, a'r prif amcan oedd gwneud argymhelliad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch pennu cyfradd briodol ar gyfer cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Er bod swm cyfraniadau aelodau wedi'i bennu yn y Rheolau, mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei bennu fel canran y cyflog sydd ei hangen i dalu balans y gost gyda'r bwriad o sicrhau y telir am fuddion y Cynllun yn ystod gwasanaeth gweithredol disgwyliedig yr aelod â Chynulliad Cymru. Disgwylir y prisiad nesaf ar 1 Ebrill 2020.

Mae'r dystysgrif actiwaraidd ffurfiol wedi'i chynnwys ar dudalennau 64-66.

## Prisiad yr Actiwari

Mae'n ofynnol i Actiwari'r Cynllun baratoi adroddiad ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Gronfa bob tair blynedd a gwneud argymhellion ar gyfradd cyfraniad Comisiwn y Cynulliad yn y dyfodol. Cwblhawyd y prisiad diweddaraf ar 1 Ebrill 2017, a gosodwyd yr adroddiad ar 27 Mawrth 2018, yn unol â rheolau'r Cynllun.

Roedd y datganiad gan yr Actiwari, dyddiedig 3 Ionawr 2018, yn argymell y dylai'r gyfradd gyfrannu gynyddu i 19.9 y cant o gyflog pensiynadwy'r Aelodau. Mae'r gyfradd hon yn cynrychioli'r swm sy'n ofynnol i dalu costau'r Cynllun er mwyn

sicrhau y telir am fuddion a chyfraniadau'r Aelodau gan ystyried gwasanaeth presennol a gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae'r dystysgrif ddilynol, dyddiedig 3 Mehefin 2020, (tudalennau 64-66) yn cadarnhau bod cyfraniad Comisiwn y Cynulliad o 19.9 y cant yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r lefel bresennol yn ddigonol i dalu am y buddion presennol. Mae'r datganiadau hyn yn seiliedig ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun ar y dyddiad prisio ond nid ydynt yn cynnwys unrhyw gostau sy'n deillio o ddyfarniad McCloud a chydraddoli GMP. Mae'r datganiadau hyn yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Safon Cyfrifyddu Technegol (TAS) 100 a TAS 300 a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adroddiadau Ariannol. Disgwylir y prisiad tair blynedd nesaf ar 1 Ebrill 2020.

## Aelodaeth

Nodir isod aelodaeth y Cynllun ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn, a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn:

| **Aelodau gweithredol** | |
|---|---|
| [1] Aelodaeth gyfrannol ar ddechrau'r flwyddyn, 1 Ebrill 2019 (59 Aelod o'r Cynulliad. O'r 60 Aelod mae 40 yn Ddeiliaid Swyddi.) | 59 |
| Aelodau newydd yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Aelodau sydd wedi gadael yn ystod y flwyddyn | (1)* |
| Aelodau sydd wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Marwolaeth mewn swydd | 0 |
| Aelodau a oedd yn cyfrannu ar 31 Mawrth 2020 | 58 |

| **Pensiynwyr** | |
|---|---|
| Aelodau a oedd yn cael taliadau pensiwn ar 1 Ebrill 2019 | 61 |
| Aelodau sy'n ymddeol o wasanaeth gweithredol yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Aelodau sy'n ymddeol o fod â statws gohiriedig | 4 |
| Dibynyddion newydd | 0 |
| Marwolaethau yn ystod y flwyddyn | (1) |
| Pensiynwyr a oedd yn derbyn tâl ar 31 Mawrth 2020 | 64 |

[1] Mae un o'r 60 o Aelodau'r Cynulliad wedi rhoi'r gorau i gyfrannu oherwydd ei fod wedi cyrraedd yr uchafswm a ganiateir yng Nghynllun Pensiwn yr Aelodau. Cyrhaeddodd un Aelod 75 oed a chan nad oedd bellach yn gymwys i gael rhyddhad treth ar ei gyfraniadau i'r Cynllun, penderfynodd optio allan.

| Aelodau gohiriedig | |
|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2019 | 23 |
| Aelodau a adawodd gan gadw eu hawl i ohirio cymryd eu pensiwn | 1 |
| Aelodau sy'n ymddeol o fod â statws gohiriedig<br>Aelodau a drosglwyddodd fuddion allan o'r Cynllun | (4)<br>(0) |
| Aelodau sy'n gohirio cymryd eu pensiwn ar 31 Mawrth 2020 | 20 |

## Cynnydd mewn pensiynau

Datgelir manylion am y taliadau a wnaed o'r Cynllun yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 5 sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon. Adolygir y pensiynau sy'n cael eu talu bob blwyddyn yn unol â'r Gorchymyn Cynnydd Pensiynau (Adolygu). Gosodwyd Gorchymyn 2019 gerbron y Senedd ar 14 Mawrth 2019 a daeth i rym ar 8 Ebrill 2019.

## Deiliaid Cronfeydd

| Cronfa | Deiliad |
|---|---|
| Baillie Gifford | New York Mellon |
| Invesco Perpetual | New York Mellon |
| BNYM Sustainable Real Return Fund | BNY Mellon |
| Partners Group | BNY Mellon Trust & Depositary (UK) Limited |
| LGIM Managed Property Fund | HSBC |
| LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilt Index Fund | HSBC |
| LGIM Ethical Global Equity Index Fund<br>▪ Gwarannau tramor<br>▪ Gwarannau'r DU | <br>Citibank<br>HSBC |

## Rheoli buddsoddiadau

Ceir at yr holl gronfeydd drwy Mobius Life Limited ("Mobius"), a'r ffioedd a delir gan y Cynllun yw'r rhai a godir gan Mobius. Mae'r tabl isod yn nodi'r tâl rheoli blynyddol a godir ar y Cynllun gan Mobius Life Limited am bob cronfa y buddsoddir ynddi.

| Cronfa | Tâl rheoli blynyddol (%) |
|---|---|
| Baillie Gifford Diversified Growth | 0.65 |
| Invesco Perpetual Global Targeted Returns | 0.75 |
| BNYM Sustainable Real Return Fund | 0.69 |
| Partners Group Generations | 1.35 |
| LGIM Ethical Global Equity Index | 0.35 |
| LGIM Managed Property | 0.64 |
| LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index | 0.08 |

Symudwyd asedau o gronfa Invesco Global Targeted Returns i gronfa BNY Mellon Sustainable Real Return ym mis Rhagfyr 2019 a mis Ionawr 2020. Nodwch, cafodd y ffi ar gyfer cronfa LGIM Managed Property ei gostwng o 0.70 y cant y flwyddyn i 0.64 y cant y flwyddyn ar ôl i'r Cynllun fuddsoddi yng nghronfa BNY Mellon Sustainable Real Return.

Y gost o reoli'r gronfa yn 2019-20 oedd £231,049 (2018-19 £217,446) ac roedd 'Treuliau Eraill' o £67,019 (2018-19 £51,083).

Mae holl gronfeydd y Cynllun yn cael eu cynnal drwy ateb gweithredu Mobius. Mae'r asedau yn cael eu dal o dan enw Mobius.

## Polisi buddsoddi

Yr Ymddiriedolwyr sy'n pennu Polisi Buddsoddi'r Cynllun a bydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd. Nodir y polisi a oedd mewn grym ar 31 Mawrth 2020 yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sydd wedi'i fabwysiadu gan yr Ymddiriedolwyr, a gall Aelodau wneud cais i Ysgrifenyddiaeth y Cynllun i'w weld. Nid yw'r polisi'n caniatáu unrhyw fuddsoddiad cysylltiedig â'r cyflogwr.

Mae'r holl fuddsoddiadau wedi'u gwneud mewn daliannau a ganiateir gan reoliadau'r Cynllun ac na cheir eu gwahardd gan yr Ymddiriedolwyr.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, yn unol ag adran 35 o Ddeddf Pensiynau 1995, sy'n nodi eu polisïau buddsoddi a'u strategaeth ar gyfer eu cyflawni, ac mae copi ar gael gan Ysgrifenyddiaeth y Cynllun ar gais.

Mae cyfrifoldeb dros reoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i reolwyr buddsoddi sylfaenol priodol. Mae'r rheolwyr buddsoddi sylfaenol yn gweithredu yn unol â'r canllawiau a'r cyfyngiadau a nodir yn eu prosbectws

Cronfa. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch rheoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd at ddibenion llif arian o bryd i'w gilydd.

Mae pob cynllun pensiwn yn rhan o bolisi oes sy'n gysylltiedig ag uned trwy Bolisi Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (TIP). Mae gwerth y polisi yn gysylltiedig â'r buddsoddiadau sylfaenol, y cyfarwyddwyd Mobius Life i'w prynu gan y cynllun ac ar ei ran.

## Effeithiau COVID-19

Yn ystod chwarter cyntaf 2020, cafodd pryderon ynghylch COVID-19 effaith sylweddol ar farchnadoedd yn ystod y cyfnod. Roedd ansefydlogrwydd prisiau olew yn bryder llai pwysig (ond yn werth ei nodi), ac roedd buddsoddwyr yn poeni fwyfwy am y posibilrwydd o ddirwasgiad byd-eang i'r chwarter fynd yn ei flaen.

Mae'r graddau y mae rhannau helaeth o'r economi fyd-eang wedi cael eu cau dros dro mewn ymdrech i gynnwys lledaeniad y feirws yn nodwedd benodol i'r digwyddiad hwn. Busnesau manwerthu a hamdden sydd wedi dioddef waethaf wrth i aelwydydd wario llai yn ôl disgresiwn ar eitemau dianghenraid. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, mae hynny wedi cyfrannu at leihau maint economi'r DU tua 2 y cant yn ystod chwarter cyntaf 2020, er i fanciau canolog a llywodraethau byd-eang ymateb mewn modd na welwyd mo'i debyg o'r blaen, gan ymrwymo symiau uwch nag erioed o gyllid, gyda'r nod o ddiogelu ac ysgogi'r economi fyd-eang wedi hynny.

Yr effaith dros chwarter cyntaf 2020 oedd cwymp mewn marchnadoedd ecwiti byd-eang i lefel o tua -20 y cant mewn termau lleol, gyda'r cwymp isaf yn ecwiti'r DU (i lawr 25.1 y cant, wedi'i lywio gan y cwymp ym mhris olew). I roi hyn yn ei gyd-destun, roedd rhai o'r enghreifftiau byd-eang a welwyd o gwymp yn y farchnad mor arwyddocaol â'r achosion hanesyddol yn 2008 (yr "Argyfwng Ariannol"), 2001 ("Dot.com bubble") a 1987 ("Dydd Llun Du").

Nid dim ond ecwiti a gafodd ei effeithio; roedd colledion, ansefydlogrwydd difrifol a phryderon hylifedd yn ystod y cyfnod o ran asedau risg eraill fel pris olew, eiddo, bondiau corfforaethol a marchnadoedd preifat hefyd. Roedd rhwystrau pellach o ran pris olew wrth i'r cenhedloedd mawr sy'n cynhyrchu olew, yn benodol Saudi Arabia a Rwsia, gystadlu'n llym o ran prisiau. Ar y llaw arall, er eu bod hefyd yn gyfnewidiol iawn, roedd cynnydd yng ngwerth bondiau llywodraeth y farchnad ddatblygedig yn dilyn cyfuniad o bolisi ariannol mwy ystwyth (gan gynnwys toriadau sylweddol mewn cyfraddau llog ac esmwytho meintiol) ac ar ôl i fuddsoddwyr heidio'n sydyn i ffafrio buddsoddiadau diogel.

Mae asedau'r Cynllun yn parhau i fod wedi'u hamrywio'n dda rhwng dosbarthiadau asedau, rhanbarthau a rheolwyr cronfeydd. Mae penderfyniad yr Ymddiriedolwyr i amrywio'r asedau wedi arwain at berfformiad diogelu o tua -12.0 y cant dros gyfnod o dri mis hyd at 31 Mawrth 2020 (o'i gymharu ag enillion ecwiti byd-eang tua -20.0 y cant) a hefyd dros gyfnod o flwyddyn i 31 Mawrth 2020 (tua -5.9 y cant o'i gymharu ag enillion ecwiti byd-eang tua -9.1 y cant).

Ers 31 Mawrth 2020, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae marchnadoedd ecwiti wedi gwella rhywfaint (gan ddychwelyd i tua 11 y cant yn ystod Ebrill 2020) gan fod llywodraethau byd-eang yn rheoli lledaeniad COVID-19 ond yn parhau i fod ymhell o'u huchafbwyntiau ym mis Rhagfyr 2019. Mae llawer o'r gwledydd yr effeithiwyd arnynt yn dechrau llacio'r cyfyngiadau, ond disgwylir i hyn fod yn broses raddol. Y disgwyl yw y bydd adferiad economaidd, ond mae cryn ansicrwydd ynghylch hyd a natur adferiad o'r fath gan gynnwys pryderon ynghylch y posibilrwydd o ail don o'r feirws, y posibilrwydd o ansolfedd i gwmnïau a/ neu nad yw'r ysgogiad a ddarparwyd neu'r cyfyngiadau a osodwyd gan lywodraethau byd-eang a banciau canolog yn ddigonol.

## Perfformiad hyd 31 Rhagfyr 2019

Nodwch, mae perfformiad bras y Cynllun yn y tablau sy'n dangos perfformiad ar 31 Rhagfyr 2019 a 31 Mawrth 2020 yn cynnwys buddsoddiadau yng nghronfa Invesco Global Targeted Returns (dadfuddsoddwyd o fis Rhagfyr 2019 a mis Ionawr 2020), cronfa Baillie Gifford Managed a chronfa Baillie Gifford Index-Linked Gilt (dadfuddsoddwyd pan newidiwyd strategaeth fuddsoddi'r Cynllun yn 2017). Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am berfformiad cronfeydd y Cynllun, a'u targedau priodol hyd at 31 Rhagfyr 2019.

| | 1 flwyddyn (%) | 3 blynedd y flwyddyn (%) | 5 mlynedd y flwyddyn (%) |
|---|---|---|---|
| Baillie Gifford Diversified Growth | 12.0 | 4.5 | 4.5 |
| Cyfradd Sylfaenol y DU ynghyd â 3.5% y flwyddyn | 4.3 | 4.1 | 4.0 |
| Perfformiad cymharol | 7.7 | 0.4 | 1.5 |
| BNY Mellon Sustainable Real Return[1] | (11.7) | Amherthnasol | Amherthnasol |
| LIBOR Sterling 1 mis ynghyd â 4% y flwyddyn | 4.7 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Perfformiad cymharol | 7.0 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Partners Group Generations[2] | 13.7 | 8.6 | Amherthnasol |
| Targed absoliwt o 7% y flwyddyn | 7.0 | 7.0 | Amherthnasol |
| Perfformiad cymharol | 6.7 | 1.6 | Amherthnasol |
| LGIM Ethical Global Equity Index | 24.7 | 11.0 | 12.8 |
| FTSE4Good Global Equity Index | 25.1 | 11.3 | 13.2 |
| Perfformiad cymharol | (0.4) | (0.3) | (0.4) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| LGIM Managed Property AREF/IPD UK Quarterly All Balanced Property Funds Index<br>Perfformiad cymharol | 2.4<br>1.6<br>0.8 | 4.6<br>6.0<br>(1.4) | 5.4<br>6.6<br>(1.2) |
| LGIM Over 5-Year Index Linked Gilts Index<br>FTSE Actuaries Index-Linked (Over 5 Year) Index<br>Perfformiad cymharol | 6.8<br>6.8<br>0.0 | 2.9<br>2.9<br>0.0 | 6.5<br>6.5<br>0.0 |
| **Amcangyfrif o berfformiad y cynllun** | **13.6** | **6.8** | **7.4** |

Ffynhonnell: Baillie Gifford, BNY Mellon, Partners Group ac LGIM; heb gynnwys ffioedd. [1]Sefydlwyd y gronfa ym mis Ebrill 2018. [2]Sefydlwyd y gronfa ym mis Ebrill 2016.

Hyd at 31 Rhagfyr 2019, profodd holl gronfeydd y Cynllun berfformiad cadarnhaol am bob cyfnod o flwyddyn a mwy a ystyriwyd. Dros y tymor hwy, cafodd prisiau asedau eu cryfhau gan bolisi ariannol ystwyth, ynghyd â thwf economaidd byd-eang cadarnhaol.

Ac eithrio'r gronfa LGIM Managed Property, gwnaeth holl gronfeydd y Cynllun a reolir yn weithredol berfformio'n well na'u targedau priodol, a gwnaeth holl gronfeydd y Cynllun a reolir yn oddefol olrhain eu meincnodau priodol (o fewn yr ystod goddefgarwch), dros yr holl gyfnodau a ystyriwyd. Gellir priodoli tanberfformiad y gronfa LGIM Managed Property i'w nodweddion amddiffynnol, o'i chymharu â'i meincnod (mae'r fath nodweddion wedi golygu bod y Gronfa'n perfformio'n well dros gyfnodau tymor byr o ystyried effaith ansicrwydd Brexit ar eiddo masnachol y DU).

## Perfformiad hyd at 31 Mawrth 2020

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am berfformiad cronfeydd y Cynllun, a'u targedau priodol hyd at 31 Mawrth 2020.

| | 3 mis (%) | 1 flwyddyn (%) | 3 blynedd y flwyddyn (%) | 5 blynedd y flwyddyn (%) |
|---|---|---|---|---|
| Baillie Gifford Diversified Growth<br>Cyfradd Sylfaenol y DU ynghyd â 3.5% y flwyddyn<br>Perfformiad cymharol | (13.7)<br>1.0<br>(14.7) | (8.9)<br>4.2<br>(13.1) | (1.5)<br>4.1<br>(5.6) | 0.8<br>4.0<br>(3.2) |
| BNY Mellon Sustainable Real Return[1]<br>LIBOR Sterling 1 mis ynghyd â 4% y flwyddyn<br>Perfformiad cymharol | (8.5)<br>1.1<br>(9.4) | (2.2)<br>4.7<br>(6.2) | Amherthnasol<br>Amherthnasol<br>Amherthnasol | Amherthnasol<br>Amherthnasol<br>Amherthnasol |
| Partners Group Generations[2]<br>Targed absoliwt o 7% y flwyddyn<br>Perfformiad cymharol | (15.9)<br>1.8<br>(17.7) | (8.1)<br>7.0<br>(15.1) | 1.8<br>7.0<br>(5.2) | Amherthnasol<br>Amherthnasol<br>Amherthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| LGIM Ethical Global Equity Index | (15.6) | (3.8) | 3 | 7.4 |
| FTSE4Good Global Equity Index | (15.6) | (3.4) | 3.4 | 7.8 |
| Perfformiad cymharol | 0.0 | (0.4) | (0.4) | (0.4) |
| LGIM Managed Property | (1.5) | 0.0 | 3.4 | 4.6 |
| AREF/IPD UK Quarterly All Balanced Property Funds Index | (1.3) | 0.0 | 4.8 | 5.8 |
| Perfformiad cymharol | (0.2) | 0.0 | (1.4) | (1.2) |
| LGIM Over 5-Year Index Linked Gilts Index | 1.9 | 2.3 | 2.8 | 6.2 |
| FTSE Actuaries Index-Linked (Over 5 Year) Index | 1.9 | 2.4 | 2.9 | 6.3 |
| Perfformiad cymharol | 0.0 | (0.1) | (0.1) | (0.1) |
| **Amcangyfrif o berfformiad y cynllun** | **(12.0)** | **(5.9)** | **1.0** | **3.5** |

Ffynhonnell: Baillie Gifford, BNY Mellon, Partners Group ac LGIM; heb gynnwys ffioedd. [1]Sefydlwyd y gronfa ym mis Ebrill 2018. [2]Sefydlwyd y gronfa ym mis Ebrill 2016.

O'i gymharu â pherfformiad y cronfeydd ar 31 Rhagfyr 2019, mae'r tabl uchod yn dangos effaith cwympiadau diweddar y farchnad ar gronfeydd sylfaenol y Cynllun a pherfformiad cyffredinol y Cynllun.

Yn sgil y cwympiadau diweddar, oherwydd effeithiau pandemig COVID-19, mae holl gronfeydd gweithredol y Cynllun wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau dros yr holl gyfnodau a ystyriwyd (ac eithrio'r gronfa LGIM Managed Property dros gyfnod o flwyddyn). Mae hynny am fod y cronfeydd yn agored i asedau risg y mae lledaeniad COVID-19 wedi effeithio'n niweidiol arnynt (fel ecwiti, marchnadoedd preifat ac eiddo). Er gwaethaf y cwymp yng nghronfa ecwiti goddefol y Cynllun dros gyfnod o dri mis ac un flwyddyn, parhaodd dwy gronfa oddefol y Cynllun i olrhain eu meincnodau o fewn eu priod ystodau goddefgarwch dros yr holl gyfnodau a ystyriwyd.

Mae daliad y Cynllun yng nghronfa LGIM Over 5-year Index Linked Gilt wedi perfformio’n gadarnhaol dros yr holl gyfnodau a ystyriwyd. Mae'r gronfa, sy'n buddsoddi ym mondiau Llywodraeth y DU sy'n gysylltiedig â chwyddiant, wedi elwa wrth i fuddsoddwyr heidio i fuddsoddiadau diogel, ynghyd â pholisi ariannol llacach.

Dros gyfnod o bum mlynedd, mae holl gronfeydd y Cynllun wedi perfformio’n gadarnhaol, gan sicrhau perfformiad cadarnhaol i’r Cynllun dros y cyfnod. At hynny, er iddo gael effaith niweidiol ac oherwydd ei strategaeth amrywiol ar draws dosbarthiadau asedau, rhanbarthau a hefyd rheolwyr, roedd adenillion cyffredinol y Cynllun dros y cyfnod o dri mis ac un flwyddyn yn amddiffynnol o'i gymharu â marchnadoedd ecwiti byd-eang (a ddychwelodd tua -20 y cant a thua -9.1 y cant dros gyfnod o dri mis ac un flwyddyn, yn nhermau lleol).

Ym mis Ebrill 2020, roedd marchnadoedd ecwiti wedi gwella rhywfaint, gan ddychwelyd tua 11 y cant. Roedd asedau'r Cynllun hefyd wedi profi rhywfaint o adferiad, gan ddychwelyd tua 5.5 y cant dros yr un cyfnod. Yn sgil hynny, dychwelodd y Cynllun tua -7.2 y cant, yn y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Ebrill, o’i gymharu ag adenillion ecwiti o tua -11.5 y cant. At hynny, roedd asedau’r Cynllun yn werth tua £37.1 miliwn ar 30 Ebrill 2020, sy’n debyg i'w gwerth ar ddiwedd chwarter cyntaf 2019.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r dystiolaeth gynyddol sy'n cysylltu materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG), yn enwedig newid hinsawdd, gyda pherfformiad ariannol da yn y dyfodol. Mae'r Ymddiriedolwyr am ystyried y materion hyn wrth weithredu'r strategaeth fuddsoddi ar gyfer y Cynllun, cyn belled nad yw hyn yn dylanwadu'n ormodol ar elw a phroffil risg y cronfeydd unigol, neu'r strategaeth, yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd Pensiynau yn adolygu rhinweddau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ei reolwyr yn flynyddol ac yn holi ei gynghorwyr am ymagwedd y rheolwyr at faterion ESG ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Pensiynau.

Mae'r adrannau isod yn rhoi disgrifiad cryno, lefel uchel, o bolisïau ESG y Rheolwr. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried sut mae ffactorau ESG yn cael eu hintegreiddio i brosesau buddsoddi yn fwy manwl wrth: (i) benodi rheolwyr buddsoddi newydd; a (ii) monitro rheolwyr buddsoddi presennol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cael eu briffio’n rheolaidd ar faterion ESG gan eu cynghorwyr ac mae’r rheolwyr buddsoddi presennol yn sicrhau eu bod yn cael cyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â’r materion. At hynny, mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn adolygu cymwysterau ei reolwyr o ran ESG drwy adroddiad blynyddol ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ac yn holi ei gynghorwyr am ymagwedd y rheolwyr at y materion hyn yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i sicrhau bod egwyddorion ESG yn cael eu hymgorffori yn eu prosesau buddsoddi.

Mae tîm Baillie Gifford yn defnyddio polisi cadarn wrth weithredu ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn ei broses fuddsoddi ar lefel y cwmni ac ar lefel y cronfeydd. Mae’n defnyddio dull buddsoddi gweithredol, ‘hirdymor yn unig’, ac felly'n ymgorffori llywodraethu a chynaliadwyedd yn y broses fuddsoddi drwy waith ymchwil perchenogol. Mae’n gwneud defnydd helaeth o ymgysylltu a phleidleisio wrth annog arferion llywodraethu gorau'r cwmnïau y mae’n buddsoddi ynddynt. Mae Baillie Gifford yn disgwyl, o leiaf, i bob cwmni y mae’n buddsoddi ynddo weithredu’n unol â'r egwyddorion a'r safonau a nodir yng Nghompact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig. Pryd bynnag y bydd perfformiad cwmni ar faterion allweddol yn llawer is na'r disgwyl, bernir ei fod yn risg sylweddol i berfformiad hirdymor ei fusnes. O'r herwydd, bydd Baillie Gifford yn

ymgysylltu â'r rheolwyr yn y lle cyntaf cyn ystyried cymryd camau pleidleisio priodol.

Mae Baillie Gifford wedi bod yn un o lofnodwr Egwyddorion Cyfrifoldeb y Cenhedloedd Unedig (UNPRI) ers 2007. Mae'n sicrhau bod adroddiadau ar gael yn gyhoeddus ar ei gydymffurfiaeth â nifer o Godau Stiwardiaeth gan gynnwys rhai'r DU, Japan a'r EFAMA (European Fund and Asset Management Association).

Ffynhonnell: Baillie Gifford

Mae gwaith Invesco o ran materion ESG yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r themâu 'allweddol' a ganlyn: moeseg busnes; dyrannu cyfalaf ar gyfer y dyfodol; allyriadau carbon; llywodraethu corfforaethol; preifatrwydd data; iechyd a diogelwch gweithredol; cysylltiadau â'r llafurlu; effeithiau cymdeithasol ar gynhyrchion busnes; a dŵr, gwastraff a bioamrywiaeth. Fel cwmni, mae Invesco yn defnyddio ei ddulliau dadansoddi perchenogol ei hun yn ogystal â data a ddarperir gan drydydd partïon, gan gynnwys 'Sustainalytics', MSCI a darparwyr broceriaid. Mae Invesco yn sicrhau bod egwyddorion ESG yn cael eu dilyn yn gyson ar draws ei weithrediadau buddsoddi drwy ei grŵp buddsoddwyr ESG sydd wedi'i leoli yng nghanolfan fuddsoddi ganolog Henley, sy'n cael ei gadeirio gan bennaeth ESG y cwmni ac yn cynnwys aelodau o bob rhan o dimau buddsoddi'r cwmni.

Mae Invesco yn un o lofnodwr yr UNPRI a Chod Stiwardiaeth y DU (lle y mae wedi cyflawni statws Haen 1). Mae Invesco hefyd yn cefnogi'r TCFD – y Tasglu ar gyfer Datgeliadau sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd.

Ffynhonnell: Invesco

Fel rheolwr y gronfa BNY Mellon Sustainable Real Return, mae gweithredu themâu ESG yn rhan bwysig o waith Newton. Mae buddsoddi cyfrifol yn rhan annatod o broses fuddsoddi Newton. Mae'n credu'n gryf bod cwmnïau a reolir yn gyfrifol mewn sefyllfa well i sicrhau mantais gystadleuol gynaliadwy a sicrhau twf hirdymor. Mae'n ddull a arweinir gan fuddsoddiad sy'n dibynnu ar ddeall y materion, cynnal gwaith ymchwil perchenogol, ymgysylltu â chwmnïau a chymryd rhan wrth ddatblygu safonau. Pan fydd pryderon ynghylch materion ESG, ond y bernir bod modd eu datrys, bydd Newton yn llunio cynllun ymgysylltu â therfyn amser. Os na fydd Newton yn gweld digon o gynnydd i'r cyfeiriad cywir dros yr amser hwnnw, bydd yn gwerthu ei ddaliad yn llwyr, sef ei gosb eithaf yn erbyn corfforaethau trafferthus. Ar ôl i warant gael ei ddewis ar gyfer y portffolio, mae Newton yn parhau â'r broses hon drwy fonitro proffil ESG y cwmni, yn ogystal ag ymgymryd â gwaith ymgysylltu a phleidleisio drwy ddirprwy (ar gyfer daliadau ecwiti). Mae Newton yn gwneud hyn ar amrywiaeth eang o bynciau, o dâl

swyddogion gweithredol, i newid yn yr hinsawdd ac amrywiaeth yn y gweithle. Mae Newton yn atgyfnerthu'r gwaith ymgysylltu hwn drwy fynd ati'n weithredol i bleidleisio drwy ddirprwy yn achos buddsoddiadau ecwiti. Mae Newton wedi bod yn un o lofnodwr yr UNPRI ers 2007.

Ffynhonnell: Newton

Mae Partners Group yn nodi ei fod yn fuddsoddwr cyfrifol, ymroddedig a phrofiadol sydd wedi ceisio datblygu a gwella ei ddull o ymgorffori ffactorau ESG yn y broses gwneud penderfyniadau buddsoddi (sydd wedi'i lywio gan yr UNPRI). O ganlyniad, mae Partners Group wedi datblygu Polisi a Fframwaith Buddsoddi Cyfrifol, y mae'n ceisio ei gymhwyso i bob cyfle buddsoddi er mwyn integreiddio ffactorau ESG yn y broses gwneud penderfyniadau buddsoddi. Cred Partners Group fod y dull hwn yn lliniaru'r risgiau buddsoddi a bod ganddo'r potensial i wella'r adenillion buddsoddi er lles cleientiaid y cwmni a'i fuddiolwyr. Mae Polisi Buddsoddi Cyfrifol Partners Group yn ymgorffori'r ddau brif amcan ar gyfer integreiddio ffactorau ESG yn ei broses fuddsoddi ar gyfer pob dosbarth o asedau, sef:

- yn gysylltiedig â buddsoddi: lliniaru'r risgiau buddsoddi a, lle y bo'n bosibl, gwella'r adenillion buddsoddi;
- yn gysylltiedig â moeseg: sicrhau bod yr asedau y buddsoddir ynddynt ar ran ei gleientiaid yn parchu a, lle y bo'n bosibl, o fudd i gymdeithas a'r amgylchedd.

Ffynhonnell: Partners Group

Mae dwy o bob tair o'r cronfeydd LGIM a fuddsoddwyd ynddynt gan y Cynllun yn gronfeydd olrhain mynegeion ac, fel y cyfryw, mae hyn yn golygu mai ychydig o ddylanwad sydd gan y rheolwr o ran materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a sut y cânt eu rheoli. O ran safbwynt corfforaethol, fodd bynnag, mae LGIM wedi ymrwymo i hyrwyddo materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a sicrhau bod cwmnïau y mae'n buddsoddi ynddynt yn ymwybodol o'r materion hynny.

Mae LGIM wedi dangos parodrwydd i gefnogi/ datblygu llywodraethu da ac arferion/ polisïau cymdeithasol drwy gydweithio â chwmnïau sylfaenol a llunwyr polisi (neu eu herio). Er enghraifft, yn y blynyddoedd diwethaf mae LGIM wedi:

(i) cryfhau ei bolisi o ran amrywiaeth y bwrdd ac wedi pleidleisio'n weithredol yn erbyn cwmnïau lle gwelwyd diffyg amrywiaeth, polisïau amrywiaeth gwael a datgeliadau amrywiaeth gwael (gan ystyried bod cyfalaf ariannol a chyfalaf dynol yr un mor bwysig); (ii) annog cwmnïau i ganolbwyntio ar berfformiad hirdymor wrth ystyried a gweithredu

polisïau tâl cydnabyddiaeth; pleidleisio yn erbyn polisïau tâl cydnabyddiaeth a oedd yn annheg yn ei farn ef; a (iii) ceisio codi'r bar o ran llywodraethu corfforaethol drwy gefnogi datblygiad y Cod Llywodraethu Corfforaethol mewn amrywiol ranbarthau. Mae LGIM yn ystyried bod newid yn yr hinsawdd yn ffactor pwysig sy'n dwyn risgiau ariannol, ac mae wedi dangos parodrwydd i ddwyn cwmnïau mwy i gyfrif o ran newid yn yr hinsawdd (cefnogi penderfyniadau ynghylch newid yn yr hinsawdd) a thrwy lansio ei Adduned Newid Hinsawdd.

Mae'r Cynllun yn buddsoddi yng nghronfa LGIM Ethical Global Equity Index, sydd â'r nod o olrhain yr FTSE 4Good Developed Index, a ddyluniwyd fel mynegai ar gyfer aelodau sydd ag arferion ESG cryf.

Ffynhonnell: LGIM

Mae adroddiad buddsoddi sy'n ymwneud â'r polisïau buddsoddi yn ystod y flwyddyn ac adolygiad o berfformiad buddsoddiadau'r gronfa, ynghyd â natur, trefniadau a diogelwch yr asedau, i'w cael ar dudalennau 27-36. Mae gwerth Cronfeydd y Cynllun ar y farchnad i'w gweld yn Nodyn 9 o'r cyfrifon.

Llofnod

**Jill Youds**
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
(Ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Llofnod

**Nia Morgan**
Ymddiriedolwr

# Adroddiad buddsoddi – ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sy'n nodi eu polisïau buddsoddi a'u strategaeth ar gyfer eu cyflawni, ac mae copi ar gael ar gais gan Ysgrifennydd y Cynllun.  Mae cyfrifoldeb dros reoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r rheolwyr buddsoddi priodol, sy'n gweithredu'n unol â'r cytundeb sydd ar waith gyda Mobius. Mae Mobius yn gweithredu yn unol â'r cytundeb gyda'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi Quantum Advisory fel y cynghorydd buddsoddi ar gyfer y Cynllun. Mae buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd cyfun a reolir gan Baillie Gifford, Invesco Perpetual, BNY Mellon, Partners Group ac LGIM.

## Prisiad Portffolio 31 Mawrth 2019

| | 31 Mawrth 2019 GBP |
|---|---:|
| Bailie Gifford Diversified Growth Fund | 12,684,960 |
| Invesco Perpetual Global Targeted Returns | 5,227,679 |
| Partners Group Generations | 3,744,178 |
| LGIM Ethical Global Equity Index | 9,649,470 |
| LGIM Managed Property | 1,914,027 |
| LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index | 3,845,556 |
| Cyfanswm | 37,065,870 |

## Prisiad Portffolio 31 Mawrth 2020

| | 31 Mawrth 2020 GBP |
|---|---:|
| Baillie Gifford Diversified Growth | 11,723,320 |
| Invesco Perpetual Global Targeted Returns | 0.00 |
| BNY Mellon Sustainable Real Return Fund | 4,991,190 |
| Partners Group Generations | 3,437,660 |
| LGIM Ethical Global Equity Index | 9,285,978 |
| LGIM Managed Property | 1,819,919 |
| LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index | 3,918,952 |
| Cyfanswm | 35,177,019 |

## Dosraniad yr Asedau

Dosraniad yr asedau oedd:

| | **31 Mawrth 2019**<br>% |
|---|---|
| Baillie Gifford Diversified Growth | 34.2 |
| Invesco Perpetual Global Targeted Returns | 14.1 |
| Partners Group Generations | 10.1 |
| LGIM Ethical Global Equity Index | 26.0 |
| LGIM Managed Property | 5.2 |
| LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index | 10.4 |
| CYFANSWM | 100.0 |

| | **31 Mawrth 2020**<br>% |
|---|---|
| Baillie Gifford Diversified Growth | 33.3 |
| Invesco Perpetual Global Targeted Returns | 0 |
| BNY Mellon Sustainable Real Return Fund | 14.2 |
| Partners Group Generations | 9.8 |
| LGIM Ethical Global Equity Index | 26.4 |
| LGIM Managed Property | 5.2 |
| LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index | 11.1 |
| CYFANSWM | 100.0 |

## Amcan Perfformiad

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dewis cronfeydd sydd â'r amcanion perfformiad a ganlyn ar gyfer y rheolwyr buddsoddi sy'n ystyried proffil rhwymedigaethau'r gronfa a'r lefel o risg sy'n briodol ym marn yr Ymddiriedolwyr. Nodwch, dadfuddsoddwyd yr holl asedau a ddaliwyd gan y Cynllun yng nghronfa Invesco Perpetual Global Targeted Returns yn ystod y flwyddyn ac fe'u buddsoddwyd wedi hynny yng nghronfa BNY Mellon Sustainable Real Return.

| Baillie Gifford Diversified Growth Pension Fund | Cronfa (heb gynnwys tâl rheoli blynyddol y Cynllun) | Meincnod +3.5 y cant |
|---|---:|---:|
| Perfformio 3.5 y cant y flwyddyn (heb gynnwys ffioedd) yn well na chyfradd sylfaenol y DU dros gyfnodau treigl o bum mlynedd gyda chyfnewidioldeb blynyddol o lai na 10 y cant. | | |
| Pum mlynedd (y flwyddyn) | 0.8 | 4.0 |
| Tair blynedd (y flwyddyn) | (1.5) | 4.1 |
| Un flwyddyn | (8.9) | 4.2 |

| Invesco Perpetual Global Targeted Returns Fund | Cronfa (heb gynnwys tâl rheoli blynyddol y Cynllun) | Meincnod +5 y cant |
|---|---:|---:|
| Mae'r gronfa'n targedu enillion gros o 5 y cant y flwyddyn uwchlaw LIBOR 3 mis y DU ac mae'n anelu at gyflawni hyn gyda llai na hanner cyfnewidioldeb ecwiti byd-eang, dros yr un cyfnod treigl o dair blynedd. | | |
| Ers dechrau (y flwyddyn) (Ebrill 2014) | 1.9 | 5.6 |
| Tair blynedd (y flwyddyn) | (0.3) | 5.7 |
| Un flwyddyn | 1.2 | 5.8 |

| BNY Mellon Sustainable Real Return Fund | Cronfa (heb gynnwys tâl rheoli blynyddol y Cynllun) | Meincnod |
|---|---:|---:|
| Er mwyn sicrhau isafswm adenillion arian parod o (LIBOR un mis) + 4 y cant y flwyddyn dros gyfnod treigl o bum mlynedd cyn ffioedd. Wrth wneud hynny, nod y strategaeth yw sicrhau adenillion cadarnhaol ar sail dreigl dros dair blynedd. | | |
| Ers ei sefydlu ( y flwyddyn) | 2.4 | 4.5 |
| Un flwyddyn | (2.2) | 4.7 |

| Partners Group Generations Fund | Cronfa (heb gynnwys ffioedd safonol) | Meincnod |
|---|---|---|
| Mae'r Gronfa yn targedu enillion net o 7 y cant i 11 y cant y flwyddyn o ffioedd dros gylchred marchnad lawn. Mae pen isaf y targed hwn (h.y. 7 y cant y flwyddyn) wedi'i ddefnyddio yn y tabl perfformiad isod | | |
| Ers dechrau (y flwyddyn) (Ebrill 2016) | 3.7 | 7.0 |
| Tair blynedd (y flwyddyn) | 1.8 | 7.0 |
| Un flwyddyn | (8.1) | 7.0 |

| LGIM Ethical Global Equity Index Fund | Cronfa (heb gynnwys ffioedd safonol) | Meincnod |
|---|---|---|
| Amcan buddsoddi'r Gronfa yw olrhain perfformiad Mynegai Ecwiti Byd-eang FTSE4Good (namyn y dreth atal), a hynny o fewn +/- 0.5 y cant y flwyddyn am ddwy flynedd allan o dair. | | |
| Pum mlynedd (y flwyddyn) | 7.4 | 7.8 |
| Tair blynedd (y flwyddyn) | 3 | 3.4 |
| Un flwyddyn | (3.8) | (3.4) |

| LGIM Managed Property Fund | Cronfa (heb gynnwys tâl rheoli blynyddol y Cynllun) | Meincnod |
|---|---|---|
| Nod y Gronfa yw perfformio'n well na'r AREF/IPD UK Quarterly All Balanced Property Funds Index dros gyfnodau o dair a phum mlynedd. | | |
| Pum mlynedd (y flwyddyn) | 4.6 | 5.8 |
| Tair blynedd (y flwyddyn) | 3.5 | 4.8 |
| Un flwyddyn | 0.1 | 0.0 |

| LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index Fund | Cronfa (heb gynnwys tâl rheoli blynyddol y Cynllun) | Meincnod |
|---|---|---|
| Amcan buddsoddi'r Gronfa yw olrhain perfformiad yr FTSE Actuaries Index-Linked (Over 5 Year) Index, a hynny o fewn +/- 0.25 y cant y flwyddyn am ddwy flynedd allan o dair. | | |
| Pum mlynedd (y flwyddyn) | 6.2 | 6.3 |
| Tair blynedd (y flwyddyn) | 2.8 | 2.9 |
| Un flwyddyn | 2.4 | 2.4 |

Ffynhonnell: Invesco, Partners Group, LGIM ,Baillie Gifford a BNY Mellon

## Crynodeb o Ystadegau Risg

| **Bailie Gifford Diversified Growth Pension Fund** | |
|---|---|
| Cyfnewidioldeb a gyflawnwyd | 6.4% |

Cyfnewidioldeb blynyddol, wedi'i gyfrifo dros bum mlynedd tan ddiwedd mis Mawrth 2020.

Ffynhonnell: Baillie Gifford

| **Invesco Perpetual Global Targeted Returns Fund** | |
|---|---|
| Cyfnewidioldeb a gyflawnwyd | 3.6% |

Cyfnewidioldeb blynyddol, wedi'i gyfrifo ers sefydlu'r Gronfa (Ebrill 2014) hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020.

Ffynhonnell: Invesco Perpetual

| **BNY Mellon Sustainable Real Returns Fund** | |
|---|---|
| Cyfnewidioldeb a gyflawnwyd (y flwyddyn) | 6.8% |

Cyfnewidioldeb blynyddol, wedi'i gyfrifo ers sefydlu'r Gronfa (Ebrill 2018) hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020. Cyfrifir cyfnewidioldeb gan ddefnyddio’r prisiau dyddiol ar gyfer y Gronfa oherwydd y cyfnod byrrach ers ei sefydlu.

Ffynhonnell: Newton

# Cefndir yr economi a'r farchnad – 12 mis tan 31 Mawrth 2020

## Cefndir y farchnad

Yn ystod y 12 mis hyd at fis Mawrth 2020, cafodd marchnadoedd byd-eang eu llywio i raddau helaeth gan ddwy thema allweddol. Y cyntaf oedd bod hyder buddsoddwyr wedi codi a gostwng wrth i hynt y Cytundeb Masnach rhwng UDA a Tsieina ddatblygu. Camodd banciau canolog i mewn gyda naill ai rhethreg neu gamau gweithredu cymodlon pan roedd hyder yn isel, ac o ganlyniad, yn ystod naw mis cyntaf y cyfnod, gwelwyd enillion cyffredinol ar gyfer marchnadoedd risg. Yr ail thema, a'r fwyaf arwyddocaol, oedd lledaeniad cyflym, byd-eang y pandemig COVID-19 tua diwedd chwarter cyntaf 2020. Llusgwyd marchnadoedd i lawr o uchafbwyntiau hanesyddol wrth i'r pandemig wthio'r economi fyd-eang tuag at ddirwasgiad. Mae rhagor o wybodaeth am effaith COVID-19 ar fuddsoddiadau'r Cynllun ar dudalen 19.

Cynhyrchodd marchnadoedd ecwiti datblygedig adenillion cadarnhaol yn ystod ail, trydydd a phedwerydd chwarter 2019 tra bod marchnadoedd datblygol yn fwy cyfnewidiol gyda pherfformiad cymysg. Syrthiodd pob marchnad ecwiti byd-eang yn sydyn yn chwarter cyntaf 2020. Ymhlith y marchnadoedd datblygol, ecwitïau'r DU a gwympodd fwyaf oherwydd y lefel uchel o gyfnewidioldeb o ran olew. Roedd marchnadoedd yr UD ychydig yn fwy cadarn, gan gwympo i raddau llai.

Sicrhaodd asedau diogel, fel bondiau Llywodraeth y DU a Doler yr UD adenillion cadarnhaol dros y cyfnod o 12 mis. Roedd cwymp yng nghynnyrch bondiau'r Llywodraeth, o ganlyniad i lacio'r polisi ariannol byd-eang ynghyd â symudiad sydyn at fuddsoddiadau diogel.

Ffynhonnell: Quantum Advisory

### Strategaethau Aml-ased

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o gronfeydd aml-ased yn adlewyrchu cyfeiriad y farchnad ecwiti dros y cyfnod. Sicrhaodd llawer o strategaethau traddodiadol adenillion cadarnhaol cyson dros y cyfnod hyd at ddiwedd 2019, ond profwyd cwympiadau serth yn ystod chwarter cyntaf 2020. Roedd manteision arallgyfeirio yn arwyddocaol ar gyfer y strategaethau hyn, gan fod llawer o strategaethau yn cynhyrchu adenillion llai cyfnewidiol o gymharu ag ecwiti (fodd bynnag, yn gyffredinol methodd y strategaethau hyn â chynyddu mor gyflym â'r marchnadoedd ecwiti cynyddol yn ystod 2019). Yn yr un modd, yn chwarter cyntaf 2020, gwelwyd cwympiadau mewn llawer o strategaethau aml-ased, ond fe'u

diogelwyd i raddau helaeth rhag profi cwympiadau cynddrwg â’r marchnadoedd ecwiti.

Ffynhonnell: Quantum Advisory

## Bondiau’r Llywodraeth

Gostyngodd cynnyrch bondiau'r Llywodraeth dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020, gyda giltiau enwol y DU yn dychwelyd 17.6 y cant tra bod giltiau mynegrifol yn dychwelyd 2.4 y cant. Mae hyn yn adlewyrchu’r disgwyliadau y bydd chwyddiant yn gostwng dros y cyfnod (yn sgil diwygio’r mynegai prisiau manwerthu (RPI) o bosibl a chwymp cyffredinol yn chwyddiant y DU), a gafodd effaith negyddol ar bris giltiau mynegrifol o'u cymharu â'r giltiau enwol cyfatebol. Llywiwyd y galw am giltiau i raddau helaeth gan bolisi ariannol byd-eang llac ac ansicrwydd buddsoddwyr yn ystod y flwyddyn gyda chynnydd sydyn wrth i fuddsoddwyr heidio i fuddsoddiadau diogel yn chwarter cyntaf 2020 wrth i'r pandemig COVID-19 effeithio’n sylweddol ar farchnadoedd.

Ffynhonnell: Quantum Advisory

## Eiddo

Roedd heriau strwythurol yn parhau i wynebu’r farchnad eiddo yn y DU dros y cyfnod, am fod ansicrwydd buddsoddwyr yn pwyso ar y dosbarth hwn o asedau. Roedd themâu allweddol fel yr heriau i'r sector manwerthu yn parhau i fod yn berthnasol ond roedd arwyddion o feysydd o alw o ran gofod swyddfa, yn enwedig yn Llundain. Tua diwedd y cyfnod, roedd materion hylifedd a phrisio yn risgiau allweddol i gronfeydd eiddo wrth i fecanweithiau cyfyngu ac atal gael eu rhoi ar waith ar gyfer rhai o gronfeydd eiddo amlwg y DU. Wrth i COVID-19 ledaenu, defnyddiwyd mwy o fecanweithiau ar gyfer strategaethau. Disgwylir heriau parhaus i'r dosbarthiadau hyn o asedau, gan ei bod hi’n anodd i rai tenantiaid masnachol gynhyrchu refeniw a thalu gorbenion tra bod economi'r DU yn parhau dan glo.

Ffynhonnell: Quantum Advisory

## Marchnadoedd preifat

Gwelwyd perfformiad cryf dros ail, trydydd a phedwerydd chwarter 2019 mewn marchnadoedd preifat, ond roeddent ar ei hôl hi, yn y pen draw, o gymharu ag asedau rhestredig, yn dilyn perfformiad cryf o ran ecwiti yn 2019. Oherwydd y dimensiwn byd-eang i fuddsoddiadau eiddo tiriog preifat, gwelwyd perfformiad llawer gwell o'i gymharu â sector eiddo'r DU. Gan fod buddsoddwyr yn fwy awyddus i fuddsoddi yn y sector preifat, gwelwyd cwmnïau ecwiti preifat yn cronni symiau uwch nag erioed o arian parod yn barod i’w wario gan fuddsoddwyr dros y cyfnod. Fodd bynnag, arweiniodd effaith sylweddol y pandemig COVID-19 ar yr economi fyd-eang at gydberthynas gynyddol rhwng marchnadoedd preifat a

gwarantau rhestredig, a gwelwyd perfformiad negyddol sylweddol yn y ddau ddosbarth o asedau yn chwarter cyntaf 2020.

Ffynhonnell: Partners Group

## Y Daliadau mwyaf – Y Deg Uchaf

| Baillie Gifford Diversified Growth Pension Fund | Canran o'r portffolio |
|---|---|
| Baillie Gifford Global Alpha Growth Fund | 5.2 |
| Baillie Gifford Global Income Growth Fund | 5.1 |
| Baillie Gifford Emerging Markets Bond Fund | 5.0 |
| Baillie Gifford Long Term Global Growth Investment Fund | 4.4 |
| Exchange Traded Funds Ishares Physical Metals Plc | 4.0 |
| Baillie Gifford Emerging Markets Government Bonds (arian caled) | 3.2 |
| Invesco Gold Exchange Traded Fund | 3.1 |
| Baillie Gifford Worldwide Japanese Fund | 3.0 |
| Goldman Sachs Cross Asset Trend Portfolio | 2.6 |
| Nomura Cross Asset Momentum Fund | 2.5 |

| Invesco Perpetual Global Targeted Returns Fund | Canran o'r portffolio |
|---|---|
| Arian parod (GBP) | 9.9 |
| 2024 Mexican Bond | 9.2 |
| Societe Generale Perpetual | 4.6 |
| 2020 Mizuho Bank | 4.6 |
| 2050 Government of France Bond | 4.3 |
| Qatar National Bank Perpetual | 4.1 |
| Invesco Global Liquidity Fund | 2.9 |
| Merrill Lynch Collateral | (2.8) |
| Merrill Lynch US Derivative Swap | 2.6 |
| Merrill Lynch Margin (dros y cownter) | 2.2 |

| BNY Mellon Sustainable Real Return Fund | Canran o'r portffolio |
|---|---|
| Invesco Physical Gold Exchange Traded Commodity | 5.9 |
| iShares Physical Gold Exchange Traded Commodity | 5.9 |
| Amundi Physical Metals Plc 2019 – open end on Gold Structured Note | 4.6 |
| Greencoat UK Wind Plc | 2.4 |
| Renewables Infrastructure Group Limited | 1.6 |
| AIA Group Limited | 1.6 |
| Canada Housing Trust (Rhif 1, 2.35, 15 Mehefin 2027) | 1.5 |
| Government of Australia (3.0, 21 Mawrth 2047) | 1.5 |
| S&P 500 Put Rhagfyr 2020 2650 | 1.4 |
| Government of Hungary (5.5, 24 Mehefin 2025) | 1.4 |

| Partners Group Generations Fund | Canran o'r portffolio |
|---|---|
| Global Logic | 3.2 |
| Project Moon | 1.6 |
| Techem | 1.5 |
| Zabka | 1.4 |
| EveCare Partners | 1.4 |

Sylwer mai dim ond ar gyfer y pum daliad uchaf y mae Partners Group yn darparu gwybodaeth gyhoeddus ar gyfer cronfa Generations Fund.

| LGIM Ethical Global Equity Index Fund | Canran o'r portffolio |
|---|---|
| Microsoft Corporation | 5.3 |
| Apple Inc | 4.7 |
| Johnson & Johnson | 1.6 |
| Alphabet Cl C | 1.6 |
| Alphabet Cl A | 1.5 |
| Neste | 1.3 |
| Visa Inc Class A | 1.2 |
| Procter & Gamble Company | 0.2. |
| Unitedhealth Group Inc | 1.1 |

| | |
|---|---|
| Intel Corp | 1.0 |

| LGIM Managed Property Fund | Canran o'r portffolio |
|---|---|
| Llundain – Safle Strand Island | 4.6 – 4.9 |
| Brentford – Parc Diwydiannol West Cross | 4.3 – 4.6 |
| Dunstable – Stad Ddiwydiannol Woodside | 3.0 – 3.3 |
| Reading – Apex Plaza | 2.7 – 3.0 |
| Manceinion – One Piccadilly | 2.7 – 3.0 |
| Llundain – 76-88 Wardour Street | 2.7 – 3.0 |
| Basingstoke – Parc Busnes Kingsland | 2.7 – 3.0 |
| Maidenhead – Grenfell Island | 2.4 – 2.7 |
| Caergrawnt – Parc Gwyddoniaeth Caergrawnt | 1.8 – 2.1 |
| Birmingham – Rackhams | 1.8 – 2.1 |

| LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index Fund | Canran o'r portffolio |
|---|---|
| Trysorlys y DU 1.25% 2055 | 6.0 |
| Trysorlys y DU 0.125% 2068 | 5.4 |
| Trysorlys y DU 0.375% 2062 | 5.3 |
| Trysorlys y DU 1.125% 2037 | 5.2 |
| Trysorlys y DU 0.75% 2047 | 5.0 |
| Trysorlys y DU 0.5% 2050 | 5.0 |
| Trysorlys y DU 0.125% 2044 | 4.9 |
| Trysorlys y DU 0.625% 2040 | 4.7 |
| Trysorlys y DU 0.625% 2042 | 4.5 |
| Trysorlys y DU 1.25% 2032 | 4.4 |

Ffynhonnell: Invesco Perpetual, Partners Group, LGIM, Baillie Gifford a BNY Mellon.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr am y Datganiadau Ariannol

Cyfrifoldeb yr Ymddiriedolwyr yw'r Datganiadau Ariannol. Nid yw'n ofynnol drwy statud i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio â rheoliadau Cynlluniau pensiwn, ond maent wedi cytuno i wneud hynny pan fo'n bosibl oherwydd ei fod yn arfer da. Yn ôl y rheoliadau, rhaid i'r Ymddiriedolwyr sicrhau bod datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer bob Cynllun ar gael i aelodau'r Cynllun, buddiolwyr a rhai partïon eraill a bod yn rhaid i'r datganiadau hyn wneud y canlynol:

- Rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cynllun yn ystod blwyddyn y Cynllun ac o faint a sefyllfa'r asedau a'r rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn honno, ar wahân i'r cyfrifoldebau i dalu pensiynau a buddion ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun, a

- Chynnwys y wybodaeth benodol yn yr Atodlen i'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, gan gynnwys datganiad yn nodi a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 'Adroddiadau Ariannol o Gynlluniau Pensiwn'.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi goruchwylio'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol ac maent wedi cytuno ar bolisïau cyfrifyddu addas, sydd i'w gweithredu'n gyson, gan wneud unrhyw amcangyfrifon a dod i unrhyw farn ar sail ddarbodus a rhesymol.

Ar yr un pryd, mae materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, a'r modd y caiff y materion hyn eu rheoli, yn rhan annatod o gynaliadwyedd busnes. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnod o gyfraniadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod gweithredol o'r Cynllun ac am sicrhau bod cyfraniadau'n cael eu gwneud i'r Cynllun yn unol ag argymhellion Actiwari'r Cynllun.

Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu digonol yn cael eu cadw ac am gymryd y camau rhesymol sydd ar gael iddynt i ddiogelu asedau'r Cynllun ac i atal a darganfod unrhyw dwyll neu anghysondebau eraill, gan gynnwys cynnal dulliau rheoli mewnol priodol.

## Crynodeb o'r cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn

Dyma'r cyfraniadau a dalwyd i'r Cynllun yn ystod y flwyddyn gan y Cyflogwr yn unol ag argymhellion yr Actiwari:

| | 2019-20<br>£ | 2018-19<br>£ |
|---|---:|---:|
| Cyfraniadau arferol y cyflogwr | 1,040,069 | 932,356 |
| Cyfraniadau arferol y cyflogai | 543,652 | 496,314 |
| Cyfanswm | **1,583,721** | **1,428,670** |

Cysoni'r cyfraniadau a dalwyd, a welir uchod, â'r cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol:

| | 2019-20<br>£ | 2018-19<br>£ |
|---|---:|---:|
| Cyfraniadau a dalwyd | 1,583,721 | 1,428,670 |
| Namyn balans agoriadol dyledwyr | (121,153) | (101,753) |
| Ychwaneger balans terfynol dyledwyr | 0 | 121,153 |
| Cyfanswm y cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol | **1,462,568** | **1,448,070** |

Llofnod

**Jill Youds**
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
(Ar ran yr Ymddiriedolwyr)
**Dyddiad** 6 Gorffennaf 2020

Llofnod

**Nia Morgan**
Ymddiriedolwr

# Datganiad Llywodraethu

## Cwmpas y Cyfrifoldeb

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb fel Ymddiriedolwyr dros gynnal system gadarn o lywodraethu i ddiogelu cronfeydd ac asedau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu diffinio'n glir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 37.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynllun statudol ac mae'n gynllun pensiwn cofrestredig o dan Ddeddf Cyllid 2004. Mae'r Cynllun wedi'i gofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Pensiwn a rhif Cofrestrfa'r Cynllun Pensiwn (PSR) yw 12015963. Cyfeirnod Treth y Cynllun Pensiwn (PSTR) yw 00462258RW.

Mae'r Tîm Pensiynau o fewn Gwasanaethau Ariannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu gwasanaethau ysgrifenyddol a gweinyddol i'r Ymddiriedolwyr, ac mae'r trefniant hwnnw wedi ei gynnwys mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Bwrdd), Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) a'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi rolau a chyfrifoldebau priodol y Bwrdd, y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr o ran rheoli a gweinyddu Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Cylch Gorchwyl hefyd ar gyfer y Bwrdd Pensiynau sy'n nodi'r cyfrifoldebau hynny sy'n benodol i'r Bwrdd, gan gwmpasu y cylch gwaith, yr hyn sy'n ofynnol gan aelodau'r Bwrdd a'r broses benodi.

Ychydig cyn diwedd y flwyddyn, o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud yn sgil COVID-19 yn y DU, dechreuodd Ysgrifenyddiaeth y Cynllun weithio gartref. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn defnyddio offer a ddarperir gan y Comisiwn i gyflawni eu rolau, a gellir defnyddio'r offer hyn o bell, gan olygu bod modd cysylltu'n ddiogel â'r rhwydwaith. Mae'r un lefel o seiberddiogelwch yn berthnasol pan fydd staff yn gweithio o bell â phan fyddant yn y swyddfa.

Cynhelir mynediad llawn, di-dor i systemau TGCh y Comisiwn yn ystod yr amser hwn. Ni chafwyd unrhyw broblemau ac mae'r holl drafodion bancio wedi'u cynnal yn ddiffwdan. Cynhaliwyd cyflogres y Pensiynwyr gan dîm cyflogres y Comisiwn ac mae'r holl bensiynwyr wedi'u talu'n gywir ac yn brydlon.

## Y Fframwaith Llywodraethu

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Ymddiriedolwyr, a hynny ym mis Gorffennaf, mis Tachwedd a mis Mawrth. Mae'r tabl presenoldeb isod yn dangos cyfran yr holl gyfarfodydd y bu'r Ymddiriedolwyr a benodwyd ar y dyddiadau hynny yn bresennol ynddynt.

| Enw | Canran y cyfarfodydd y bu'r ymddiriedolwyr yn bresennol ynddynt |
|---|---|
| Jill Youds Cadeirydd | 100 y cant |
| Mike Hedges AS Cynrychiolydd Aelodau | 100 y cant |
| Nia Morgan Cynrychiolydd y Comisiwn | 100 y cant |
| Ieuan Wyn Jones Cynrychiolydd Aelodau | 100 y cant |
| Robert Evans Cynrychiolydd y Comisiwn | 100 y cant |

Yn ystod y flwyddyn, trafododd yr Ymddiriedolwyr yr adroddiadau manwl a ganlyn:

- Adroddiad yr Archwilydd ar y Datganiadau Ariannol,
- Gweithred Indemniad ddiwygiedig
- Cytundeb Prosesu Data
- Gosod Amcanion ar gyfer y Cynghorydd Buddsoddi
- Adolygiad blynyddol o Fuddsoddiadau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu
- Adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi
- Adolygiad y Bwrdd Taliadau o Reolau'r Cynllun

Roedd y wybodaeth hon, ynghyd â phapurau briffio ychwanegol a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, yn darparu data o ansawdd da a oedd yn caniatáu i'r Ymddiriedolwyr arfer eu swyddogaethau'n effeithiol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. At hynny, yn sgil yr archwiliad mewnol o weinyddiaeth y Cynllun yn 2018 cofnodwyd graddfa barn sicrwydd sylweddol ar weinyddiaeth y Cynllun a daeth i'r casgliad bod fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cynllun yn ddigonol ac yn effeithiol ac ni wnaed unrhyw argymhellion ar gyfer newid.

## Diben y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei ddarparu, ac nid sicrwydd absoliwt.

Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus i geisio nodi'r prif risgiau i nodau ac amcanion Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn gwerthuso natur a maint y risgiau hynny a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system yn seiliedig ar fframwaith o reoli gwybodaeth yn rheolaidd, rheoli ariannol, gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo a sicrhau atebolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yng Nghynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

## Problemau rheolaeth fewnol sylweddol

Ni nodwyd unrhyw broblemau rheolaeth fewnol sylweddol yn ystod y flwyddyn.

## Y gallu i ymdopi â risg

Caiff y cyfrifoldeb dros weinyddu a chyfrifyddu'r Cynllun o ddydd i ddydd ei ysgwyddo ar ran yr Ymddiriedolwyr gan staff yr Ysgrifenyddiaeth o fewn Gwasanaethau Ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth.

## Digwyddiadau data personol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol na cholli data yn ystod y flwyddyn.

## Rheoli Risg

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, adolygwyd y gofrestr risg ar gyfer y Cynllun, a chafodd ei diweddaru a'i chytuno gyda'r Ymddiriedolwyr fel rhan o'r cynllun busnes tymor canolig. Mae pob risg yn cael ei nodi ac yn cael sgôr yn seiliedig ar ffactorau fel y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd a'r effaith y gallai'r risg ei chael pe bai'n digwydd. Mae'r sgôr risg yn adlewyrchu'r rheolaethau sydd eisoes ar waith i reoli pob risg a nodwyd. Bydd yr ymddiriedolwyr yn adolygu'r gofrestr risg ym mhob cyfarfod.

Defnyddiwyd y gofrestr a ddeilliodd o hyn i ganfod unrhyw fesurau ychwanegol a ystyrir yn angenrheidiol i reoli'r risgiau yn effeithiol. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r risgiau sydd wedi eu nodi a'r mesurau a roddwyd ar waith i leihau eu heffaith:

- **Buddsoddiadau:** Risg na fydd buddsoddiadau yn cynhyrchu digon o adenillion gan effeithio, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol y Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu perfformiad buddsoddi bob chwarter ac mae cynghorydd buddsoddi'r Cynllun yn llunio adroddiad blynyddol ar berfformiad buddsoddiadau;
- **Cofnodion y Cynllun Pensiwn:** Risg o gofnodion anghyflawn neu anghywir a all arwain at daliadau anghywir / anawdurdodedig neu at wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth anghyflawn. Cadwyd cofnodion cywir o aelodau blaenorol a phresennol, trafodion i mewn ac allan o'r Cynllun a chyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr;
- **Gweinyddu'r Cynllun:** Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro'r camau a gymerir gan y staff gweinyddol i reoli risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb ym mhob un o'u cyfarfodydd;
- **Aelodau:** Mae gweithdrefn ar waith i ddatrys anghydfodau'n ymwneud â'r Cynllun gydag aelodau. Darperir gwybodaeth yn rheolaidd i aelodau'r Cynllun drwy gylchlythyron ac mewn cyfarfodydd grŵp.
- **Cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR):** Rhoddwyd Cynllun Gweithredu ar waith i sicrhau bod yr holl ofynion yn cael eu bodloni a bod prosesau'n cael eu cofnodi. Rhoddwyd gweithdrefn ar waith i reoli achosion o fynediad diawdurdod i ddata. Mae'r holl Aelodau yn cael Rhybuddion Preifatrwydd. Mae Cytundeb Prosesu Data ar waith rhwng yr Ymddiriedolwyr a'r Comisiwn.
- **Parhad Busnes:** Os bydd digwyddiad difrifol, mae prosesau ar waith i sicrhau y bydd gwasanaeth arferol yn cael ei gynnal, cyhyd ag y bo modd, yn dilyn digwyddiad sy'n tarfu ar weithgareddau arferol. Mae cynlluniau

ar waith i sicrhau bod pensiynau a buddion aelodau'n cael eu talu, bod cyfraniadau'n cael eu trosglwyddo ar amser a bod modd bancio o bell.

## Adolygu effeithiolrwydd

Cawn gymorth i ddatblygu a chynnal y rheolaethau mewnol gan uwch-reolwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Bydd Archwilwyr Mewnol Comisiwn y Cynulliad yn adolygu'r fframwaith rheoli mewnol bob blwyddyn.

Mae ein hadolygiad o effeithiolrwydd y rheolaethau hyn yn cael ei lywio gan waith Archwilydd Cyffredinol Cymru. Caiff y sylwadau a wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill eu hystyried.

Rydym yn fodlon bod y rheolaethau mewnol sydd ar waith wedi bod yn effeithiol yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn.

Cymeradwywyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar 6 Gorffennaf 2020 gan:

Llofnod

**Jill Youds**
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
(Ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Llofnod

**Nia Morgan**
Ymddiriedolwr

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru

Rwyf wedi archwilio Datganiadau Ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 sy'n cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad o asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

## Barn

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, a'r swm a'r sefyllfa ar ddyddiad ei asedau a'i rwymedigaethau, heblaw am y rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion ar ddiwedd y flwyddyn;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- yn cynnwys y wybodaeth a bennir yn Rheoliad 3A o Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, a wneir o dan Ddeddf Pensiynau 1995.

### Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y Cynllun pensiwn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn i.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau ar y materion a ganlyn y mae’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol imi adrodd wrthych yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

- nid yw defnydd yr Ymddiriedolwyr o sail busnes gweithredol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r Ymddiriedolwyr wedi datgelu unrhyw ansicrwydd perthnasol yn y datganiadau ariannol a all achosi amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu'r Cynllun pensiwn i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol cyfrifyddu am gyfnod sy'n o leiaf ddeuddeg mis o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilio. Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, rwy'n gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall i nodi unrhyw anghysondebau o bwys yn y datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth arwyddocaol sy’n ymddangos yn anghywir, a hynny ar sail y wybodaeth a gaf wrth gynnal yr archwiliad, neu oherwydd unrhyw anghysondeb o bwys a welaf rhwng y datganiadau a’r wybodaeth a gaf. Os byddaf yn gweld unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys, byddaf yn ystyried goblygiadau hynny ar gyfer fy adroddiad.

## Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a nodir ar dudalennau 37-38, mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi safbwynt gwir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath fel y mae'r Ymddiriedolwyr yn ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad materol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r Cynllun i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n

berthnasol i fusnes gweithredol fel y bo'n briodol, a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai yr ystyrir ei fod yn amhriodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad materol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad materol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn faterol os, yn unigol neu ar y cyfan, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Llofnod

**Anthony Barrett**
Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
7 Gorffennaf 2020

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Senedd; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

# Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020

| Cyfrif y Gronfa | Nodyn | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|---|
| Cyfraniadau a buddion | | £ | £ |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 4 | 960,497 | 950,895 |
| Cyfraniadau'r cyflogai | 4 | 502,071 | 497,175 |
| Cyfanswm y cyfraniadau | | 1,462,568 | 1,448,070 |
| Llog a dderbyniwyd | | 339 | 281 |
| Incwm arall | | 0 | 0 |
| | | 1,462,907 | 1,448,351 |
| Buddion a dalwyd neu sy'n daladwy | 5 | (1,058,828) | (998,634) |
| Ffioedd proffesiynol | 10 | (96,665) | (118,054) |
| Treuliau gweinyddol | 8 | (5,679) | (7,148) |
| | | (1,161,172) | (1,123,836) |
| | | | |
| Ychwanegiadau net o drafodion ag Aelodau | | 301,735 | 324,515 |
| Incwm buddsoddi | | | |
| Newid yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | 11 | (1,904,379) | 1,688,714 |
| Treuliau rheolwyr buddsoddi | 12 | (298,068) | (268,529) |
| Adenillion net ar fuddsoddiadau | | (2,202,447) | 1,420,185 |
| | | | |
| Swm y cynnydd net yn y gronfa | | (1,900,712) | 1,744,700 |
| Asedau net adeg agor y Cynllun | | 37,150,279 | 35,405,579 |
| | | | |
| **Asedau net adeg cau'r Cynllun** | | **35,249,567** | **37,150,279** |

| Datganiad o'r asedau net | Nodyn | Fel ar 31 Mawrth 2020 £ | Fel ar 31 Mawrth 2019 £ |
|---|---|---|---|
| Asedau buddsoddi | | | |
| Buddsoddiad cronedig | 9 | 35,177,019 | 37,065,870 |
| | | | |
| Cyfanswm y buddsoddiadau | | 35,177,019 | 37,065,870 |
| | | | |
| Asedau Cyfredol | 6 | 130,208 | 178,596 |
| | | | |
| Rhwymedigaethau Cyfredol | 7 | (57,660) | (94,187) |
| | | | |
| Cyfanswm asedau net y Cynllun | | **35,249,567** | **37,150,279** |

Crynhoi trafodiadau ac asedau net y Cynllun yn unig y mae'r Datganiadau Ariannol, ac nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun. Ymdrinnir â safbwynt yr Actiwari, sy'n ystyried rhwymedigaethau o'r fath, yn Natganiad yr Actiwari ar dudalennau 64-66 a dylid darllen y Datganiadau Ariannol hyn ar y cyd â'r adroddiad hwnnw.

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ar 6 Gorffennaf 2020:

Llofnod

**Jill Youds**
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
(Ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Llofnod

**Nia Morgan**
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 49-61 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon

## 1. Sail y gwaith paratoi

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 – y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, ac â'r canllawiau a nodir yn y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) ar Adroddiadau Ariannol Cyfrifon Cynllun Pensiwn, a adolygwyd ym mis Tachwedd 2015.

Mae'r cyfrifon yn rhoi crynodeb o drafodion ac asedau net y Cynllun. Nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun.

Mae'r adroddiad actiwaraidd yn ystyried y rhwymedigaethau hyn (gellir gweld Datganiad yr Actwari ar dudalennau 64-66).

## 2. Polisïau cyfrifyddu

Dyma brif bolisïau cyfrifyddu'r Cynllun:

### Incwm o fuddsoddiadau

- Caiff incwm o adneuon arian parod ac adneuon byrdymor eu cyfrif ar sail croniadau.
- Caiff incwm o fuddsoddiadau sy'n deillio o fuddsoddiadau sylfaenol y cyfryngau buddsoddi cronedig eu cyflwyno yn y gronfa fuddsoddi, a'u hadlewyrchu yng ngwerth yr unedau a'r cyfranddaliadau, ac nid adroddir arno ar wahân yn natganiadau ariannol y Cynllun.
- Mae llog adneuon arian parod yn cronni'n ddyddiol.

### Cyfraniadau

- Rhoddir cyfrif am gyfraniadau cyflogeion pan fyddant yn cael eu didynnu o gyflog aelodau.
- Rhoddir cyfrif am gyfraniadau arferol y cyflogwr ar yr un sail â chyfraniadau cyflogeion.

## Trosglwyddiadau

- Mae gwerth yr holl symiau ariannol a drosglwyddwyd i Gynlluniau pensiwn eraill yn cael eu cyfrifo a'u gwirio gan Actiwari'r Cynllun yn unol â Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993.
- Rhoddir cyfrif am fuddion yn y cyfnod y maent yn ddyledus a rhoddir cyfrif am ad-daliadau cyfraniadau pan fyddant yn cael eu gwneud.
- Rhoddir cyfrif am drosglwyddiadau unigol allan o'r Cynllun pan delir neu pan dderbynnir y swm dan sylw, sy'n digwydd fel arfer pan dderbynnir rhwymedigaeth i aelod neu pan ryddheir o'r rhwymedigaeth honno.

## Treuliau

- Rhoddir cyfrif am wariant yn y cyfnod sy'n berthnasol iddo.

## Treuliau Buddsoddi Eraill

- Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad y llynedd, nid oedd treuliau'r chwarter olaf yn hysbys ac felly cyfrifwyd treuliau buddsoddi eraill ar gyfer pob cronfa o'r cyfartaledd o'r holl wybodaeth am dreuliau a oedd ar gael ym mhob chwarter rhwng mis Ionawr 2019 a mis Rhagfyr 2019 ac fe'u seiliwyd ar y prisiadau diwedd mis.
- Yn yr adroddiad eleni nid oedd treuliau'r chwarter olaf yn hysbys ar gyfer y gronfa Managed Property a chronfa BNYM Mellon Real Return. Roedd ffioedd y gronfa Managed Property Fund yn seiliedig ar gyfartaledd y treuliau ychwanegol dros 2019, a defnyddiwyd treuliau'r chwarter blaenorol ar gyfer cronfa BNYM Mellon Real Return wrth i'r Cynllun ddechrau buddsoddi yn y gronfa hon ym mis Rhagfyr 2019.
- Eleni mae'r fethodoleg hefyd wedi newid rhywfaint. O ystyried y newidiadau yn ystod y flwyddyn, mae treuliau wedi eu seilio ar brisiadau asedau dyddiol.

## Trethi

Mae'r Cynllun yn Gynllun pensiwn statudol o dan Adran 611A o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 12 o Ddeddf Cyllid 1999, ac mae'n Gynllun cofrestredig tybiedig o dan Ddeddf Pensiynau 2004. Felly, mae'r Cynllun wedi'i eithrio o drethiant. Cyfeirnod Treth y Cynllun Pensiwn (PSTR) yw 00462258RW.

### Prisio buddsoddiadau

Caiff buddsoddiadau eu prisio ar eu gwerth teg ar ddyddiad y Datganiad o'r Asedau Net yn unol â'r hierarchaeth gwerth teg a ganlyn:

Categori (a) Y pris a ddyfynnwyd mewn marchnad weithredol am ased o'r un math.

Categori (b) Os nad yw pris a ddyfynnwyd ar gael, caiff pris trafodyn diweddar ar gyfer ased o'r un math ei addasu os oes angen.

Categori (c) Os nad yw pris a ddyfynnwyd ar gael ac os nad yw trafodyn diweddar o ased o'r un math, ar ei ben ei hun, yn amcangyfrif da o werth teg, caiff y gwerth teg ei bennu gan ddefnyddio techneg brisio sy'n defnyddio:

- c (i) data gweladwy'r farchnad; neu
- c (ii) data nad yw'n weladwy.

Caiff buddsoddiadau cronedig eu prisio ar bris teg a nodir ar y pris terfynol sengl sy'n cael ei gyfrifo ar sail pris terfynol y gwarannau gwaelodol ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Gall hyn fod yn wahanol i'r pris a ddefnyddir ar gyfer prynu a gwerthu unedau.

## 3. Yr Ysgrifenyddiaeth

Mae'r gost o ddarparu staff ar gyfer ysgrifenyddiaeth y Cynllun yn parhau i gael ei dalu'n uniongyrchol gan Gomisiwn y Cynulliad o dan amodau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunodd y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr arno. Amcangyfrifir mai £111,925 (2018-19 £107,404) oedd y gost ar gyfer cyfnod y cyfrifon hyn.

## 4. Cyfraniadau Derbyniadwy

| | 2019-20<br>£ | 2018-19<br>£ |
|---|---:|---:|
| Cyfraniadau'r cyflogwr: | | |
| Normal | 960,497 | 950,895 |
| Cyfraniadau'r cyflogai: | | |
| Normal | 502,071 | 497,175 |
| Cyfanswm | 1,462.568 | 1,448,070 |

Cyfrannodd aelodau o'r Cynllun cyflog terfynol 10 y cant i gronni buddion ar sail un rhan o 40, a 6 y cant i gronni buddion ar sail un rhan o 50. Cyfrannodd aelodau'r Cynllun CARE 10.5 y cant i gronni buddion ar sail un rhan o 50 y cyfartaledd gyrfa. Mae Comisiwn y Cynulliad yn cyfrannu 19.9 y cant o gyflogau pensiynadwy i'r Cynllun.

## 5. Buddion sy'n daladwy

| | 2019-20<br>£ | 2018-19<br>£ |
|---|---:|---:|
| Pensiynau | 807,427 | 759,734 |
| Buddion mewn Cyfandaliad | 240,140 | 133,694 |
| Treth oherwydd croesi'r trothwy lwfans oes neu flynyddol | 11,261 | 105,206 |
| **Cyfanswm** | **1,058,828** | **998,634** |

Mae'r dreth ar fuddion a dalwyd neu a ddaw'n daladwy yn digwydd yn achos aelodau yr oedd eu buddion yn fwy na'r lwfans oes neu'r lwfans blynyddol, ac a ddewisodd gael buddion is o'r Cynllun yn gyfnewid am fod y Cynllun yn setlo eu rhwymedigaethau treth.

## 6. Asedau Cyfredol

| | 31 Mawrth 2020<br>£ | 31 Mawrth 2019<br>£ |
|---|---:|---:|
| Arian parod yn y banc | 129,916 | 57,148 |
| Cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr a'r cyflogai | 0 | 121,153 |
| Dyledwyr eraill a rhagdaliadau | 292 | 295 |
| **Cyfanswm** | **130,208** | **178,596** |

Nid oes cyfraniadau'n ddyledus gan y cyflogwr a'r cyflogai ym mis Mawrth 2020 oherwydd cawsant eu talu'n llawn i'r Cynllun ar 31 Mawrth cyn y terfyn amser statudol, sef 19 Ebrill 2020.

## 7. Rhwymedigaethau Cyfredol

| | 31 Mawrth 2020<br>£ | 31 Mawrth 2019<br>£ |
|---|---:|---:|
| Credydwyr: symiau'n daladwy cyn pen blwyddyn | (57,660) | (94,187) |
| **Cyfanswm** | **(57,660)** | **(94,187)** |

Mae 'credydwyr: symiau'n daladwy cyn pen blwyddyn' yn cynrychioli rhwymedigaethau am waith a wnaed p'un a dderbyniwyd yr anfonebau neu beidio erbyn diwedd y flwyddyn, a rhwymedigaethau dyledus sydd heb eu talu.

## 8. Costau Gweinyddol

| | 2019-2020<br>£ | 2018-19<br>£ |
|---|---:|---:|
| Hyfforddiant | 4,582 | 6,228 |
| Costau gweinyddol eraill | 1,097 | 920 |
| Cyfanswm | 5,679 | 7,148 |

## 9. Cyfryngau Buddsoddi Cronedig

| | 31 Mawrth 2020<br>£ | 31 Mawrth 2019<br>£ |
|---|---:|---:|
| Bailie Gifford Diversified Growth Pension Fund | 11,723,320 | 12,684,960 |
| Invesco Perpetual Global Targeted Returns Fund | 0 | 5,227,679 |
| BNY Mellon Sustainable Real Return Fund | 4,991,190 | |
| Partners Group Generations Fund | 3,437,660 | 3,744,178 |
| LGIM Ethical Global Equity Index Fund | 9,285,978 | 9,649,470 |
| LGIM Managed Property Fund | 1,819,919 | 1,914,027 |
| LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index Fund | 3,918,952 | 3,845,556 |
| Cyfanswm | 35,177,019 | 37,065,870 |

## 10. Ffioedd proffesiynol

| | 2019-20<br>£ | 2018-19<br>£ |
|---|---:|---:|
| Ffioedd Actiwaraidd | 31,397 | 55,873 |
| Ymddiriedolwr annibynnol | 11,722 | 12,209 |
| Ymgynghoriaeth fuddsoddi | 31,316 | 21,487 |
| Ymgynghoriaeth arall | 0 | 4,700 |
| Ffioedd archwilio | 13,079 | 13,079 |
| Ffioedd cyfreithiol | 9,151 | 10,706 |
| Cyfanswm | 96,665 | 118,054 |

Caiff yr holl ffioedd proffesiynol eu dangos gyda'r Dreth ar Werth (TAW) wedi'i chynnwys.

Mae gwaith ymgynghori arall ar gyfer 2018-19 yn ymwneud â'r gwaith a wnaed gan Quantum Advisory i gynorthwyo gweinyddwr y Cynllun i sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR.

Mae'r ffi cynghorydd buddsoddi ychydig yn uwch eleni oherwydd gwaith ar adolygiad o'r strategaeth fuddsoddi a materion ESG ac adroddiadau ychwanegol oherwydd newidiadau yn y gofynion ar gyfer y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi. Mae'r ffi actiwaraidd eleni yn cynnwys elfen o waith a wnaed ar brisio'r cap ar gostau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae'r gwaith hwn ar y gweill a bydd yn parhau y flwyddyn nesaf.

## 11. Cysoni buddsoddiadau

| | Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill 2019 (£) | Pryniannau (£) | Gwarediadau a Gwerthiant (£) | Newid yn y gwerth ar y farchnad (£) | Treuliau Rheolwyr Buddsoddi (£) | Newid net yn y gwerth ar y farchnad(£) | Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2020(£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Baillie Gifford Diversified Growth Fund | 12,684,960 | 176,618 | -- | (1,036,910) | (101,348) | (1,138,258) | 11,723,320 |
| Invesco Global Targeted Returns Fund [1] | 5,227,679 | 151,978 | (5,466,832) | 116,096 | (28,921) | 87,175 | -- |
| BNY Mellon Sustainable Real Return Fund [1] | -- | 5,466,832 | -- | (462.766) | (12,876) | (475,642) | 4,991,190 |
| Partners Group Generations Fund | 3,744,178 | -- | -- | (212,897) | (93,621) | (306,518) | 3,437,660 |
| LGIM Ethical Global Equity Index Fund | 9,649,470 | -- | -- | (326,698) | (36,794) | (363,492) | 9,285,978 |
| LGIM Managed Property Fund | 1,914,027 | -- | -- | (72,799) | (21,309) | (94,108) | 1,819,919 |
| LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index Fund | 3,845,556 | -- | (15,000) | 91,595 | (3,199) | 88,396 | 3,918,952 |
| **Asedau Buddsoddi Net** | **37,065,870** | **5,795,428** | **(5,481,832)** | **(1,904,379)** | **(298,068)** | **(2,202,447)** | **35,177,019** |

1 Yn dilyn adolygiad o fuddsoddiadau'r Cynllun, yn eu cyfarfod ym mis Tachwedd cytunodd y Bwrdd Pensiynau i ddadfuddsoddi o gronfa Invesco Global Returns a throsglwyddo'r asedau i gronfa BNY Mellon Sustainable Real Return.

| | Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill 2018 (£) | Pryniannau (£) | Gwarediadau a Gwerthiant (£) | Newid yn y gwerth ar y farchnad (£) | Treuliau Rheolwyr Buddsoddi (£) | Newid net yn y gwerth ar y farchnad(£) | Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2019(£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Baillie Gifford Diversified Growth Fund | 12,398,399 | 271,187 | -- | 114,594 | (99,220) | 15,374 | 12,684,960 |
| Invesco Global Targeted Returns Fund | 5,314,451 | 31,590 | (10,000) | (68,731) | (39,631) | (108,362) | 5,227,679 |
| Partners Group Generations Fund | 3,518,180 | -- | | 300,025 | (74,027) | 225,998 | 3,744,178 |
| LGIM Ethical Global Equity Index Fund | 8,558,794 | 61,285 | -- | 1,062,222 | (32,831) | 1,029,391 | 9,649,470 |
| LGIM Managed Property Fund | 1,861,129 | -- | -- | 72,824 | (19,926) | 52,898 | 1,914,027 |
| LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index Fund | 3,640,670 | -- | -- | 207,780 | (2,894) | 204,886 | 3,845,556 |
| **Asedau Buddsoddi Net** | **35,291,623** | **364,062** | **(10,000)** | **1,688,714** | **(268,529)** | **1,420,185** | **37,065,870** |

Dangosir dyraniad yr asedau yn Adroddiad Buddsoddi Rheolwyr y Gronfa ar dudalen 27. Ni ellir pennu'r incwm buddsoddi ar gyfer cronfeydd sylfaenol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan nad oes dosbarthiadau o'r gronfa, gyda'r holl incwm ac unrhyw adenillion treth yn cael eu cyfuno a thrwy hynny gynyddu gwerth yr unedau.

## 12. Treuliau'r Rheolwyr Buddsoddi

Dangosir y canrannau tâl rheoli blynyddol yn y tabl isod.

| **Cronfa** | **Tâl rheoli blynyddol (%)** |
|---|---|
| Baillie Gifford Diversified Growth | 0.65 |
| Invesco Perpetual Global Targeted Returns | 0.75 |
| BNY Mellon Sustainable Real Return Fund | 0.69 |
| Partners Group Generations | 1.35 |
| LGIM Ethical Global Equity Index | 0.35 |
| LGIM Managed Property | 0.64 |
| LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index | 0.08 |

Trafododd y Cynghorydd Buddsoddi ostyngiad yn y ffi ar gyfer cronfa LGIM Managed Property o 0.70 y cant i 0.64 y cant yn ystod y broses o drosglwyddo arian o gronfa Invesco Perpetual Global Targeted Returns i gronfa BNY Mellon Sustainable Real Return. Mae Treuliau Eraill yn cynnwys ffioedd cadw a lle y bo'r gronfa yn is-gronfa i OEIC (Open Ended Investment Company) neu'n buddsoddi mewn is-gronfeydd OEIC sylfaenol, bydd hefyd yn cynnwys treuliau fel ffioedd adnau, ffioedd cofrestru a ffioedd archwilio. Mae costau masnachu uniongyrchol wedi'u cynnwys hefyd (treth stamp, trethi eraill a chomisiwn broceru) sy'n codi wrth brynu neu werthu stociau ar y farchnad.

| Cynllun | Rheoli buddsoddiadau | | Treuliau eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019-20 £ | 2018-19 £ | 2019-20 £ | 2018-19 £ | 2019-20 £ | 2018-19 £ |
| Baillie Gifford Diversified Growth Funds | (85,00) | (80,599) | (16,348) | (18,621) | (101,348) | (99,220) |
| Invesco Global Targeted Returns Fund | (28,921) | (39,110) | -- | (521) | (28,921) | (39,631) |
| BNY Mellon Sustainable Real Return Fund | (10,452) | -- | (2,424) | -- | (12,876) | -- |
| Partners Group Generations Fund | (53,782) | (49,067) | (39,839) | (24,960) | (93,621) | (74,027) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| LGIM Ethical Global Equity Index Fund | (36,794) | (32,831) | -- | -- | (36,794) | (32,831) |
| LGIM Managed Property Fund | (12,901) | (12,945) | (8,408) | (6,981) | (21,309) | (19,926) |
| LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilts Index Fund | (3,199) | (2,894) | -- | -- | (3,199) | (2,894) |
| Cyfanswm | (231,049) | (217,446) | (67,019) | (51,083) | (298,068) | (268,529) |

Mae 'treuliau eraill' cronfa LGIM Managed Property yn cynnwys ffioedd rheoli eiddo ac eitemau 'na ellir eu hadennill' fel ffioedd syrfëwr trydydd parti.

## 13. Hierarchaeth Gwerth Teg Buddsoddi

Mae asedau buddsoddi'r Cynllun wedi cael eu prisio'n deg gan ddefnyddio'r categorïau hierarchaeth fel a ganlyn yn unol â'r polisi cyfrifyddu yn Nodyn 2:

| Ar 31 Mawrth 2020 | Categori (a) £ | Categori (b) £ | Categori c (i) £ | Categori c (ii) £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfryngau buddsoddi cronedig | 3,436,434 | 28,302,925 | - | 3,437,660 | 35,177,019 |
| Arian cadw | | | - | | |
| Cyfanswm | 3,436,434 | 28,302,925 | - | 3,437,660 | 35,177,019 |

Sylwer nad oedd Partners Group yn gallu rhoi cyngor ym mha gategori hierarchaeth gwerth teg y dylid cynnwys y Generations Fund. O gofio natur y prisiad a thryloywder y buddsoddiadau sylfaenol ac ar ôl trafodaethau rhwng Quantum Advisory a Partners Group, ymddengys y byddai'r asedau'n cael eu categoreiddio orau fel Categori C.

| Ar 31 Mawrth 2020 | Categori (a) £ | Categori (b) £ | Categori c (i) £ | Categori c (ii) £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfryngau buddsoddi cronedig | 1,351,011 | 31,655,648 | | 4,059,211 | 37,065,870 |
| Arian cadw | -- | -- | -- | -- | -- |
| Cyfanswm | 1,351,011 | 31,655,648 | | 4,059,211 | 37,065,870 |

## 14. Risgiau buddsoddi

Mae amrywiaeth o risgiau yn gysylltiedig â buddsoddiadau mewn cynllun pensiwn. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried y prif risgiau canlynol yn barhaus:

- Risg llif arian – sef risg o ddiffyg o ran asedau hylifol o'i gymharu â rhwymedigaethau uniongyrchol. Yn y tymor byr, cymharol ychydig o all-lifau arian parod sydd, ac mae'r Cynllun yn gadarnhaol o ran llif arian. Fodd bynnag, bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro'r risg hwn dros gyfnod ac yn addasu'r strategaeth fuddsoddi yn ôl y gofyn, er mwyn sicrhau bod digon o hylifedd.
- Risg o gamgymharu - sef risg y bydd gwerthoedd asedau ac atebolrwydd yn newid mewn ffyrdd sy'n wahanol iawn. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol bod buddsoddi'n sylweddol mewn asedau twf yn creu risg o gamgymharu, ond byddant am arallgyfeirio'r asedau twf i leihau risg yr anfantais. Asesir y risg hwn yn ystod pob prisiad actiwaraidd, ac fel y bydd y Cynllun yn aeddfedu bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried sut i leihau camgymharu.
- Risg Rheolwr – sef risg na fydd y rheolwyr buddsoddi yn sicrhau'r adenillion a ddisgwylir gan yr Ymddiriedolwyr. Bydd y risg yn cael ei fonitro gan yr Ymddiriedolwyr, a fydd yn adolygu perfformiad y rheolwr yn erbyn ei feincnod a'i gymheiriaid yn rheolaidd. Bydd tanberfformio am gyfnod estynedig fel arfer yn arwain at ail-dendro'r mandad buddsoddi.
- Risg crynhoi – sef risg bod cyfran fawr o asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi mewn un dosbarth o asedau neu fuddsoddiad. Mae'r Cynllun mewn perygl os yw'r dosbarth neu'r buddsoddiad hwnnw'n tanberfformio neu'n methu. Mae'r Ymddiriedolwyr yn lleihau'r risg hwn drwy fabwysiadu strategaeth sy'n golygu buddsoddi mewn ystod o wahanol ddosbarthiadau o asedau.
- Risg o ran credyd – sef risg y bydd parti i gontract yn methu â thalu neu'n methu â chyflawni'i ymrwymiadau i'r Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn lleihau'r risg hwn drwy fuddsoddi mewn cronfeydd sy'n diogelu asedau buddsoddwyr, a thrwy gadw adneuon arian parod gyda banciau cydnabyddedig yn unig, a banciau a awdurdodwyd i gynnal busnes bancio yn y Deyrnas Unedig.
- Ystyriaethau ariannol perthnasol eraill – dyma'r risg y gall ystyriaethau ariannol perthnasol (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ffactorau ESG, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd) effeithio ar y Cynllun o ran risg ac adenillion. O ran ffactorau ESG yn benodol, mae'r Ymddiriedolwyr yn

ystyried sut y maent yn cael eu hintegreiddio i brosesau buddsoddi yn fwy manwl wrth: (i) benodi rheolwyr buddsoddi newydd; a (ii) monitro rheolwyr buddsoddi presennol. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried o bryd i'w gilydd gyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â materion ESG sy'n ymwneud â'r rheolwyr buddsoddi presennol. At hynny, mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu cymwysterau ei reolwyr o ran ESG drwy adroddiad blynyddol ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ac yn holi ei gynghorwyr am ymagwedd y rheolwyr at y materion hyn yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y gwahanol fathau o risg hyn ac yn ceisio eu lleihau cyn belled â phosibl gan fonitro perfformiad buddsoddi yn rheolaidd, drwy bolisi arallgyfeirio, gan ystyried taliadau yn y dyfodol a thrwy adolygu priodoldeb y strategaeth fuddsoddi yn erbyn amcanion y Cynllun yn rheolaidd.

Caiff buddsoddiadau'r Cynllun eu rheoli i sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu cadw ar lefel sy'n dderbyniol i'r Ymddiriedolwyr. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol bod strategaeth fuddsoddi sy'n osgoi risg yn gyfan gwbl yn debygol o gynhyrchu llai o adenillion dros y tymor hwy na buddsoddiadau gydag elfen o ansicrwydd ynghylch yr adenillion. Mae'r Cynllun yn cael ei ariannu gan ddefnyddio arian cyhoeddus, ac felly mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i ddarparu buddion heb i'r pris fod yn afresymol.

Wrth ystyried risg, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried cyngor eu cynghorwyr proffesiynol a'r consensws cyffredinol o ran arfer dderbyniol wrth ymdrin â chynlluniau pensiwn galwedigaethol yn y Deyrnas Unedig. Ni fydd hyn yn atal yr Ymddiriedolwyr rhag derbyn risg yn eu strategaeth fuddsoddi pan fyddant o'r farn y bydd yn cynhyrchu elw da i'r Cynllun.

## 14.1. Polisi buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr yn paratoi polisi buddsoddi ar ôl gofyn am gyngor gan Quantum Advisory ynghylch pa mor addas yw dosbarthiadau penodol o asedau, gan ystyried natur, amseriad a'r math o arian a ddefnyddir mewn perthynas â rhwymedigaethau'r Cynllun, yn ogystal â'r lefel gyllido a pharodrwydd yr Ymddiriedolwyr a'r Cynulliad Cenedlaethol i fentro. O bryd i'w gilydd gall yr Ymddiriedolwyr hefyd ofyn am gyngor gan arbenigwyr eraill sydd â chymwysterau priodol.

Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cynllun ddigon o asedau i'w buddsoddi'n uniongyrchol i greu portffolio o fuddsoddiadau sydd ag amrywiaeth eang. Felly, hyd nes bydd yr asedau wedi cynyddu'n ddigonol, cred yr Ymddiriedolwyr mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fuddsoddi mewn cynhyrchion digon amrywiol yw drwy ddefnyddio cynhyrchion buddsoddi cronedig. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi

penderfynu defnyddio datrysiad Mobius Life Limited i roi hyblygrwydd ar gyfer eu portffolio buddsoddi ac i leihau'r ffioedd gweinyddol.

Mae'r meini prawf buddsoddi o ran cynhyrchion buddsoddi cronedig wedi'u nodi yn nogfennau llywodraethu'r cynhyrchion hynny. Ni all Ymddiriedolwyr cynllun pensiwn unigol sy'n buddsoddi mewn cynnyrch cronedig o'r fath benderfynu ar y meini prawf hyn na'u diwygio. Fodd bynnag, gall Ymddiriedolwyr y Cynllun roi ystyriaeth lawn i'r amcanion buddsoddi a nodwyd a'r amrywiaeth o fuddsoddiadau a ganiateir wrth benderfynu sut i fuddsoddi asedau'r Cynllun.

Er mwyn cyflawni'r amcan o amrywio asedau'r Cynllun a chaniatáu'r defnydd o ddosbarthiadau asedau twf i sicrhau'r adenillion disgwyliedig uwch, bydd yr Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn amrywiaeth o ddosbarthiadau o asedau sy'n ceisio sicrhau enillion tebyg i ecwiti yn bennaf. Caiff y cymysgedd o asedau yn y cronfeydd hyn ei addasu fel arfer yn ôl anghenion Cynllun pensiwn nodweddiadol ac mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried bod y Cynllun o fath tebyg.

Gall yr Ymddiriedolwyr neu eu rheolwyr buddsoddi adneuo arian parod os ydynt yn aros i'w fuddsoddi, ei ail-fuddsoddi neu ei dalu i aelodau, neu fel rhan o'r strategaeth fuddsoddi o bryd i'w gilydd. Rhaid adneuo arian parod mewn banc neu fanciau cydnabyddedig a awdurdodwyd i gynnal busnes bancio yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn cofrestredig o dan Bennod 2 o Ran 4 o Ddeddf Cyllid 2004. Er mwyn manteisio ar y gostyngiadau treth a roddwyd i gynlluniau pensiwn cofrestredig, bydd yr Ymddiriedolwyr yn buddsoddi dim ond mewn cynhyrchion buddsoddi cronedig a all hawlio manteision treth tebyg drwy ganiatáu mai dim ond Cynlluniau pensiwn eraill a gymeradwywyd at ddibenion treth neu elusennau cofrestredig all fuddsoddi ynddynt.

Yn unol â'r polisi hwn, ac er mwyn sicrhau amrywiaeth ddigonol, mae'r Ymddiriedolwyr wedi buddsoddi mewn chwe chronfa gronedig: Cronfeydd Eiddo, Twf Amrywiol, Marchnadoedd Preifat, Ecwiti Byd-eang Moesegol, Adenillion Absoliwt a Bondiau Cysylltiedig â Mynegai. Yn dilyn newid i'r strategaeth fuddsoddi yn chwarter olaf y flwyddyn, buddsoddodd yr Ymddiriedolwyr o'r Adenillion Absoliwt a buddsoddi mewn ail Gronfa Twf Amrywiol.

## 15. Trafodion partïon cysylltiedig

Yn ystod cyfnod y cyfrif mae'r Cynllun wedi cael trafodion perthnasol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a ystyrir yn barti cysylltiedig. Datgelir y trafodion hyn yn Nodyn 3 i'r cyfrifon hyn. Nid oes yr un o'r Ymddiriedolwyr, Rheolwyr y Cynllun, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r Cynllun yn ystod y flwyddyn.

# Datganiad yr Archwilydd Annibynnol

## Datganiad yr Archwilydd Annibynnol ynghylch Cyfraniadau i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru

Rwyf wedi archwilio'r crynodeb o'r cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, a nodir ar dudalen 38.

Yn fy marn i mae cyfraniadau i'r Cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, fel y nodwyd yn y crynodeb o gyfraniadau, ac a oedd yn daladwy o dan y rhestr o gyfraniadau, wedi'u talu, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol fan lleiaf â'r rhestr o gyfraniadau a ardystiwyd gan Actiwari'r Cynllun ar 3 Mehefin 2020.

## Cwmpas y gwaith ar y datganiad am gyfraniadau

Mae fy archwiliad yn ymwneud â chael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol fod y cyfraniadau a nodir yn y crynodeb o gyfraniadau ar dudalen 38, wedi'u talu, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â'r rhestr o gyfraniadau o leiaf. Mae hyn yn cynnwys archwilio, ar sail profion, y dystiolaeth a oedd yn gysylltiedig â swm y cyfraniadau a oedd yn daladwy i'r Cynllun a phryd y gwnaed y taliadau hynny, o dan y rhestr o gyfraniadau.

## Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr

Fel y disgrifir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 37, Ymddiriedolwyr y Cynllun sy'n gyfrifol am baratoi, adolygu o bryd i'w gilydd ac, os bydd angen, diwygio, a threfnu amserlen o gyfraniadau, ac am fonitro a yw cyfraniadau'n cael eu gwneud i'r Cynllun gan y cyflogwr yn unol â'r amserlen o gyfraniadau.

Fy nghyfrifoldeb i yw darparu datganiad am gyfraniadau a dalwyd o dan y rhestr o gyfraniadau a rhoi fy marn i chi.

Llofnod

**Anthony Barrett**
Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

7 Gorffennaf 2020

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Aelodau Cynllun Pensiwn Senedd Cymru (a elwir yn Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad hyd at 5 Mai 2020)

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Senedd; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan..

# Datganiad yr Actiwari yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2020

Caiff Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cymru ei eithrio o'r gofyniad a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon wedi'u harchwilio cyn pen saith mis ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifyddu. Fodd bynnag, bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ethos y ddeddfwriaeth, ac yn hynny o beth, mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn yr un modd â phe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.

## Asesiad Actiwaraidd

Cynhaliwyd asesiad actiwaraidd ffurfiol o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynllun) gyda dyddiad gweithredol o 1 Ebrill 2017, a'r prif amcan oedd gwneud argymhelliad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch lefel briodol cyfradd cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Er bod swm cyfraniadau aelodau wedi'i bennu yn y Rheolau, mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei bennu fel canran y cyflog sydd ei hangen i dalu balans y gost gyda'r bwriad o sicrhau y telir am fuddion y Cynllun yn ystod gwasanaeth gweithredol disgwyliedig yr aelod â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Dull

Ar gyfer prisiad actiwaraidd 2017, cafodd y rhwymedigaethau y disgwyliwyd iddynt gronni o dan y Cynllun yn ystod y flwyddyn yn dilyn y dyddiad prisio eu prisio gan ddefnyddio'r dull prisiad actiwaraidd sef y *Dull Rhagamcanu Unedau*. Mynegir *Cyfradd Cyfraniadau Safonol* y Dull Rhagamcanu Unedau fel gwerth y buddion a gronnir yn ystod y cyfnod rheoli wedi ei rannu â gwerth presennol enillion aelodau yn ystod y cyfnod hwn. Disgwylir i'r dull prisio hwn ddarparu Cyfradd Cyfraniadau Safonol lled sefydlog ar gyfer prisiadau actiwaraidd olynol cyhyd ag y bo'r dosbarthiad o aelodau'r Cynllun o ran oedran/rhyw/cyflog a'r tybiaethau a gaiff eu mabwysiadu yn aros yn lled gyson.

Yna, cymharwyd gwerth y rhwymedigaethau a gronnwyd hyd at y dyddiad prisio â gwerth asedau'r Cynllun ar yr un dyddiad. Gellid fod wedi adlewyrchu'r gwarged o £2.6 miliwn fel addasiad i'r Gyfradd Cyfraniad Safonol. Fodd bynnag, ar ôl trafodaethau gyda'r Ymddiriedolwyr a'r Comisiwn, cytunwyd y byddai'n ddoeth cadw'r gwarged bach hwn yn y Cynllun.

## Tybiaethau

Er mwyn cyfrifo cost buddion y Cynllun, mae'n rhaid gwneud rhai tybiaethau actiwaraidd o ran incwm disgwyliedig y Cynllun yn y dyfodol a'r buddion a delir ganddo. Mae'r Gyfradd Cyfraniadau Safonol yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r buddiannau a gronnir ar ôl y dyddiad prisio os yw'r profiad yn unol â'r tybiaethau a wnaethpwyd. Efallai y bydd angen addasu'r Gyfradd Cyfraniadau Safonol yn y dyfodol i ystyried unrhyw wahaniaeth rhwng profiadau'r Cynllun a'r tybiaethau cyllid.

Dangosir y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd ym mhrisiad actiwaraidd 2017 i gyfrifo cost buddiannau'r Cynllun yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| Adenillion buddsoddi, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant cyflog | ½ y cant y flwyddyn |
| Adenillion buddsoddi, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant pris (yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr) | 2½ y cant y flwyddyn |
| Hirhoedledd pensiynwyr – yn seiliedig ar dablau safonol a gyhoeddir gan yr Ymchwiliad Parhaus i Farwolaethau (tablau SAPS) gyda'r addasiadau a fabwysiadwyd ym mhrisiad Cynllun Pensiwn GIG Cymru a Lloegr fel ar 31 Mawrth 2016, ac yn unol â'r prif amcanestyniadau poblogaeth, a seiliwyd ar ffigurau 2016, ac a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. | |

Nodir manylion pellach am y dulliau a'r tybiaethau a ddefnyddir yn yr adroddiad ar yr asesiad actiwaraidd fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2017, dyddiedig 8 Mawrth 2018.

## Cyfradd cyfraniadau

Hyd at 5 Mai 2016, roedd yr aelodau yn talu cyfraniadau i'r Cynllun a oedd yn gyfwerth â 10 y cant o'u cyflog pensiynadwy os oeddent yn cronni buddion pensiwn ar gyfradd o un rhan o 40 o'u tâl pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth, neu 6 y cant o'u tâl pensiynadwy os oeddent yn cronni buddion pensiwn ar gyfradd o un rhan o 50. Gan ddefnyddio'r dull a'r tybiaethau uchod, yr asesiad ar gyfer cyfraniad y cyflogwr oedd 23.8 y cant o gyflog pensiynadwy o 1 Ebrill 2015 ymlaen, sydd yr un gyfradd ag oedd yn daladwy rhwng 1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2015. Mae'r gyfradd hon yn cynnwys darpariaeth lawn o ran buddion marwolaeth, gan gynnwys gwelliannau yn y buddion hyn ers i'r Cynllun ddechrau, a hefyd lwfans ar gyfer costau gweinyddol.

Ar ôl cyflwyno'r strwythur buddion newydd, cafodd y gyfradd yr argymhellir bod y cyflogwr yn ei thalu ei hailasesu ar 15.6 y cant o gyflog pensiynadwy o 6 Mai 2016 ymlaen. Dyma oedd y gyfradd gyfrannu safonol lawn namyn cyfraniadau'r aelodau, heb unrhyw addasiad i gael gwared ar y gwarged yn y Cynllun.

Yn seiliedig ar y tybiaethau a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2017, cyfran y Cynulliad o'r gyfradd gyfrannu safonol yw 19.9 y cant o dâl pensiynadwy (gan gynnwys lwfans am dreuliau). Ni wnaed unrhyw ostyngiad i'r cyfraniadau i ddileu'r gwarged.

Mae Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi cynigion i greu strwythur buddion newydd a ddaeth i rym ar 6 Mai 2016. Mae aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael eu diogelu ac yn parhau i gronni buddion ar y strwythur buddion blaenorol tan 6 Mai 2021 ac yn talu cyfraniadau o 10 y cant neu 6 y cant o'r cyflog pensiynadwy. Mae aelodau ar y strwythur buddion newydd yn talu cyfraniadau i'r Cynllun ar gyfradd o 10.5 y cant o'r cyflog p ensiynadwy.

## Diogelwch yr hawliau arfaethedig

Yn fy marn i, mae adnoddau'r Cynllun yn debygol, o dan amgylchiadau arferol, o gwrdd â rhwymedigaethau llawn y Cynllun wrth iddynt ddod yn ddyledus ac eithrio unrhyw gostau a all godi yn sgil dyfarniad McCloud a chydraddoli GMP. Wrth fynegi'r farn hon, rwyf wedi cymryd yn ganiataol y bydd cyfraniadau'r cyflogwr a'r aelodau'n cael eu talu i'r Cynllun fel y disgrifir yn y paragraff 'Cyfradd Cyfraniadau' uchod ac y byddant yn destun adolygiad yn ystod yr asesiadau actiwaraidd nesaf.

## Yr asesiad actiwaraidd nesaf

Dyddiad gweithredol prisiad ffurfiol nesaf y Cynllun gan yr actwari yw 1 Ebrill 2020. Prif ddiben y prisiad hwnnw yw asesu a yw cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr a argymhellwyd yn ddigonol, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol ers y prisiad blaenorol.

Manoj Mistry
Cymrawd Athrofa a Chyfadran yr Actiwarïaid
3 Mehefin 2020

Adran Actiwari'r Llywodraeth
Finlaison House, 15-17 Furnival Street
Llundain EC4A 1AB